Arolygiaeth Prawf EM

Arolygiad o wasanaethau troseddau ieuenctid yn:

# Powys

Arolygiaeth Prawf EM, Mawrth 2022

# Cynnwys

**Rhagair** .....3
**Sgoriau** .....4
**Crynodeb gweithredol** .....5
**Argymhellion** .....10
**Cefndir** .....11
**Ffeithiau am y Cyd-destun** .....13
**1. Darpariaeth sefydliadol** .....15
1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth .....17
1.2. Staff .....19
1.3. Partneriaethau a gwasanaethau .....22
1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau .....25
Amrywiaeth .....27
**2. Datrysiadau yn y llys** .....29
2.1. Asesiad .....30
2.2. Cynllunio .....31
2.3. Gweithredu a darparu .....32
2.4. Adolygu .....33
**3. Datrysiadau y tu allan i'r llys** .....34
3.1. Asesiad .....35
3.2. Cynllunio .....37
3.3. Gweithredu a darparu .....38
3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys .....40
**4. Ailsefydlu** .....42
4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu .....42
**Atodiad 2: Data arolygu** .....46

**Cydnabyddiaeth**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Arolygydd EM Trevor Worsfold, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a chyd-weithwyr o bob rhan o'r Arolygiaeth. Hoffem ddiolch i bawb a helpodd i gynllunio a chymryd rhan yn yr arolygiad; ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl heb eu cymorth a'u cydweithrediad.

**Rôl Arolygiaeth Prawf EM**

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yw arolygydd annibynnol gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd gwaith gwasanaethau prawf a throseddau ieuenctid gydag oedolion a phlant.

Rydym yn arolygu'r gwasanaethau hyn ac yn cyhoeddi adroddiadau arolygu. Rydym yn tynnu sylw at arferion da a gwael, ac yn defnyddio ein data a'n gwybodaeth i annog gwasanaethau o ansawdd uchel. Rydym yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn siarad yn annibynnol.

Cofiwch fod yr enwau yn yr enghreifftiau a roddir gydol yr adroddiad hwn wedi cael eu newid er mwyn diogelu pwy yw'r unigolion dan sylw.

© Hawlfraint y Goron 2022

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Prawf EM
Llawr 1af Canolfan Llysoedd Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter
@hmiprobation

ISBN: 978-1-914478-48-2

# Rhagair

Mae'r arolygiad hwn yn rhan o'n rhaglen o arolygiadau o'r gwasanaeth troseddau ieuenctid (YOS). Rydym wedi arolygu a sgorio Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Powys mewn tri maes eang: y trefniadau ar gyfer darpariaeth sefydliadol y gwasanaeth, ansawdd y gwaith a wneir gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd, ac ansawdd y datrysiadau y tu allan i'r llys. Yn gyffredinol, mae GCI Powys yn cael sgôr 'Da'.

Mae bwrdd rheoli cryf yn cefnogi gwaith y GCI. Mae'r GCI ar daith i wella'n gyflym, sydd wedi'i nodi mewn cynllun gweithredu blaenoriaeth, ac mae'n dangos y cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud dros y chwe mis diwethaf. Mae'r bwrdd rheoli wedi gwneud asesiad cywir o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, gan gomisiynu ymarfer sicrhau ansawdd allanol ar gyfer y llwyth achosion cyfan. Mae rheolwyr yn gwneud cynnydd sylweddol o ran gweithredu'r canfyddiadau, sy'n cael eu hymgorffori yn y cynllun gweithredu blaenoriaeth.

Mae gwybodaeth a chyfleusterau wedi cael sgôr 'Da'. Mae GCI Powys yn gwasanaethu ardal wledig fawr iawn ac mae ganddo lwyth achosion bach. Darperir gwasanaethau ar draws yr ardal mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r plant a'u rhieni a'u gofalwyr, ac fe'u cefnogir drwy ddefnyddio systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol.

Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau a datrysiadau y tu allan i'r llys wedi cael eu cryfhau, gan ehangu aelodaeth y paneli a gwella prydlondeb y broses o wneud penderfyniadau. Rydym wedi rhoi sgôr 'Da' iddynt. Gellid eu gwella eto drwy gynnwys gwasanaethau plant fel aelod craidd o baneli'r ganolfan.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y plant sy'n cael eu goruchwylio gan y GCI wedi gostwng yn sylweddol, ac yn 2020 cafodd y Gwasanaeth ei ad-drefnu'n sylweddol, gan gyfuno timau a lleihau nifer y rheolwyr achos. Roedd yn broses anodd ac mae nifer fawr o staff profiadol a phob un o reolwyr y GCI wedi gadael ers hynny. Er bod staff newydd wedi cael eu recriwtio, mae diffyg cydnerthedd ar hyn o bryd ac mae goruchwyliaeth y rheolwyr wedi bod yn annigonol. Erbyn hyn, mae tîm rheoli newydd, gydag uwch reolwr dros dro ychwanegol, wedi cael eu penodi. Fodd bynnag, nid oes rheolwr tîm parhaol wedi cael ei recriwtio hyd yma. Rydym wedi rhoi sgôr 'Angen gwella' ar gyfer staffio.

Rydym hefyd wedi rhoi sgôr 'Angen gwella' ar gyfer partneriaethau a gwasanaethau. Nid yw'r GCI wedi sefydlu trefniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth newydd eto, ac ar hyn o bryd nid oes llwybr i blant y Gwasanaeth gael eu hasesu ar gyfer gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu na chael gafael ar y gwasanaethau hynny.

Roedd yr arolygwyr o'r farn bod y gwaith o weithredu a darparu ymyriadau'n gryf, ac ategir hynny gan sylwadau'r plant y clywsom ganddynt. Roedd adolygu hefyd yn gryfder sylweddol. Fodd bynnag, fe wnaethom nodi nad yw staff yn dadansoddi'r holl ffactorau sy'n cyfrannu at ddiogelwch a lles plant yn effeithiol nac yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt wrth ddosbarthu risg. Canfu'r arolygwyr hefyd fod bylchau mewn ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi ymataliad, diogelwch a lles plant. O ganlyniad, rydym wedi rhoi sgôr 'Annigonol' ar gyfer asesu ac 'Angen gwella' ar gyfer cynllunio.

Rwy'n croesawu'r cynnydd sylweddol mae GCI Powys wedi'i wneud o ran gwella gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn. Mae rhagor i'w wneud o hyd i atgyfnerthu'r cynnydd ac i barhau i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Byddwn yn annog y GCI i dalu sylw i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael ag anghenion amrywiol yr holl blant mae'n gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau canlyniadau cyfartal yn ogystal â gwasanaeth o safon. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn gwneud naw o argymhellion i wella gwaith GCI Powys ymhellach ac i helpu i atgyfnerthu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn barod.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

# Sgoriau

| **GCI Powys**<br>Dechrau'r gwaith maes: Tachwedd 2021 | | **Sgôr** | **19/36** |
|---|---|---|---|
| **Sgôr gyffredinol** | | **Da** | |
| **1.** | **Darpariaeth sefydliadol** | | |
| 1.1 | Llywodraethu ac arweinyddiaeth | **Da** | |
| 1.2 | Staff | **Angen gwella** | |
| 1.3 | Partneriaethau a gwasanaethau | **Angen gwella** | |
| 1.4 | Gwybodaeth a chyfleusterau | **Da** | |
| **2.** | **Datrysiadau yn y llys** | | |
| 2.1 | Asesiad | **Annigonol** | |
| 2.2 | Cynllunio | **Angen gwella** | |
| 2.3 | Gweithredu a darparu | **Da** | |
| 2.4 | Adolygu | **Rhagorol** | |
| **3.** | **Datrysiadau y tu allan i'r llys** | | |
| 3.1 | Asesiad | **Angen gwella** | |
| 3.2 | Cynllunio | **Angen gwella** | |
| 3.3 | Gweithredu a darparu | **Rhagorol** | |
| 3.4 | Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys | **Da** | |

# Crynodeb gweithredol

Yn gyffredinol, mae GCI Powys yn cael sgôr 'Da'. Cafodd y sgôr hon ei phennu drwy arolygu'r GCI mewn tair rhan o'i waith, y cyfeirir atynt fel 'parthau'. Rydym yn arolygu yn erbyn 12 o 'safonau' craidd, a rennir rhwng y parthau. Mae'r safonau'n seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, dysg a phrofiad. Eu nod yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.[1] Y rheolau sgorio a gyhoeddir sy'n cynhyrchu sgôr gyffredinol y GCI.[2] Mae'r canfyddiadau a'r sgoriau dilynol yn y parthau hynny wedi'u disgrifio isod.

### Darpariaeth sefydliadol

Gwnaethom gyfweld cyfanswm o 34 o bobl, a oedd yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr, staff a rheolwyr partneriaeth, ac aelodau o'r bwrdd.

Yn 2020, ar ddechrau'r pandemig, fe wnaeth y GCI ddatblygu ei gynllun parhad busnes, a chytunwyd ar ddogfen arall yn amlinellu'r adferiad ar ôl Covid-19 yn ystod yr haf 2020. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, cynghorwyd yr holl staff i weithio gartref ac roedd hynny'n parhau adeg yr arolygiad ym mis Rhagfyr 2021. Ar ddechrau'r pandemig, cafodd nifer o staff o'r GCI eu symud i wasanaethau eraill sy'n hanfodol i fusnes ar draws y gwasanaethau plant, ond roeddent wedi dychwelyd i'w dyletswyddau arferol erbyn diwedd 2020. Arweiniodd hyn at oedi o ran darparu rhai ymyriadau. Fodd bynnag, oddi ar hynny, mae'r GCI wedi cynnal dull gweithredu 'busnes fel arfer', gan barhau i ddarparu ymyriadau yng nghartrefi plant, mewn ysgolion, allan yn y gymuned ac ar-lein.

Roedd y prif ganfyddiadau am ddarpariaeth sefydliadol fel a ganlyn.

Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth wedi cael sgôr 'Da'. Mae bwrdd rheoli'r GCI yn gosod cynllun clir ar gyfer darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bob plentyn ac mae'n gweithio gyda staff a phlant i fireinio'r weledigaeth. Mae'r bwrdd yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol ac anstatudol angenrheidiol. Mae cadeirydd y bwrdd yn ymgysylltu'n dda, a chanddo ddealltwriaeth ddigonol o waith y GCI. Mae aelodau eraill yn gwneud yn siŵr eu bod yn bresennol, ac yn cydnabod y cyfraniadau mae eu hasiantaethau yn eu gwneud. Fodd bynnag, nid yw'r holl anghenion amrywiol yn cael sylw ac nid oes digon o bwyslais ar ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb i amrywiaeth.

Mae aelodau'r Bwrdd yn cefnogi gwaith y GCI yn eu rolau ehangach. Maen nhw'n canolbwyntio ar y plentyn, yn rhoi blaenoriaeth i waith i gefnogi ymataliad ac atal niwed, ac yn cefnogi integreiddio â gwasanaethau ehangach. Fodd bynnag, nid yw pob risg i'r gwasanaeth wedi'i deall yn ddigonol, ac mae bylchau yn y mesurau lliniaru a'r rheolaethau sydd ar waith.

Mae tîm arwain y GCI ran o'r ffordd drwy broses o newid sylweddol. Serch hynny, mae wedi darparu cyswllt effeithiol â'r bwrdd dros y pum mis diwethaf ers i reolwyr newydd gael eu penodi, ac mae wedi cyflawni a gweithredu'r strategaeth a'r cynlluniau'n llwyddiannus. Mae'r tîm yn cyfleu'r weledigaeth a'r strategaeth yn effeithiol i staff a rhanddeiliaid, ac yn hyrwyddo bod yn agored, herio'n adeiladol, a syniadau. Mae staff yn

---

[1] Mae safonau Arolygiaeth Prawf EM ar gael yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/

[2] Mae pob un o'r 12 safon yn cael ei sgorio ar raddfa o 0 i 3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei bandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn: 0–6 = 'Annigonol', 7–18 = 'Angen gwella', 19–30 = 'Da', 31–36 = 'Rhagorol'.

deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn trefniadau'r bartneriaeth, a'r hyn y maent yn atebol amdano.

Rhoddwyd sgôr 'Angen gwella' ar gyfer staffio. Caiff lefelau staffio eu cynllunio a'u hadolygu i gwrdd â'r gofynion sy'n newid a phroffiliau'r plant. Fodd bynnag, mae rhai diffygion yn y strategaeth ar gyfer cynnal ansawdd y ddarpariaeth yn ystod absenoldebau staff sydd wedi'u trefnu a heb eu trefnu. Mae staff y GCI yn cynrychioli ethnigrwydd yr ardal, ond nid oes rheolwyr achos gwrywaidd. Defnyddir gwirfoddolwyr ac maent yn cael eu dewis yn briodol i gyflawni rolau sydd wedi'u diffinio'n glir, er bod angen mwy o wirfoddolwyr gwrywaidd.

Mae'r rhan fwyaf o staff wedi'u hysgogi i gyfrannu at ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae'r gwasanaeth wedi mynd drwy broses ailstrwythuro boenus yn ystod cyfnod Covid-19, ac wedi colli llawer o staff a rheolwyr gwybodus a phrofiadol, yn ystod y newidiadau strwythurol ac ar ôl hynny. Er bod llawer o staff sydd newydd gael eu penodi neu eu dyrchafu yn teimlo'n gyffrous am y ffordd ymlaen, mae rhai staff sefydledig yn dal i ddod i delerau â'r newidiadau diweddar, ac mae angen rhoi sylw i'r diffyg cydnerthedd o ran staffio.

Roedd colli staff profiadol yn golygu recriwtio staff newydd. Er eu bod yn llawn brwdfrydedd, mae angen datblygu eu sgiliau a'u harbenigedd. Mae gan y rhaglen gynefino ar gyfer staff newydd gyfyngiadau ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ar staff o ran mynd i swyddfeydd neu gwrdd â chydweithwyr wyneb yn wyneb.

Yn ddiweddar, mae'r GCI wedi llunio cynlluniau a dechrau eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael ag anghenion dysgu'r holl staff yn ogystal â darparu mynediad priodol at hyfforddiant mewn swydd. Nid yw'r prosesau ar gyfer adnabod a gwobrwyo gwaith eithriadol wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r staff yn fodlon â'r oruchwyliaeth a gânt, ond barnwyd bod goruchwyliaeth y rheolwyr yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd yn annigonol.

Rhoddwyd sgôr 'Angen gwella' ar gyfer partneriaethau a gwasanaethau. Nid yw dadansoddiad y GCI o broffil plant yn cael ei ddiweddaru'n gyson ac nid yw'n cynnwys yr ystod lawn o anghenion ymatal, ffactorau diogelwch a lles, risgiau o niwed, na ffactorau amrywiaeth. Mae'r GCI yn rhoi digon o sylw i batrymau lleol o ran dedfrydu a mathau o droseddau, gan helpu i ragweld galw yn y dyfodol. Mae rhai cyfleoedd i ddefnyddio dulliau dadansoddi er mwyn dylanwadu ar gyflenwi gwasanaethau yn cael eu colli.

Mae gan bartneriaeth y GCI fynediad at nifer, ystod ac ansawdd y gwasanaethau, gan gynnwys ymyriadau arbenigol a phrif ffrwd, i ddiwallu llawer o anghenion plant o ran ymatal. Mae'r trefniadau gyda'r rhan fwyaf o bartneriaid a darparwyr yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi ymataliad, cynnal diogelwch a lles, a rheoli'r risg o niwed i eraill. Fodd bynnag, nid oes llwybr y cytunir arno ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu; nid oes swyddog addysg; ac mae angen gwreiddio'r llwybrau i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Nid yw gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant o ran amrywiaeth wedi'u sefydlu. Mae fframwaith ansawdd newydd ar fin dod yn weithredol.

Mae gwybodaeth a chyfleusterau wedi cael sgôr 'Da'. Mae bron pob un o'r canllawiau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i alluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pob plentyn. Fodd bynnag, nid oes polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac nid oes ystyriaeth i effaith y polisïau a'r canllawiau ar grwpiau amrywiol. Mae'r GCI wrthi'n rhoi ei gyfres newydd o ganllawiau ar waith ac yn cyfleu hynny i'r staff ac asiantaethau partner.

Mae'r GCI yn cyflawni ei waith mewn mannau sy'n ddigon hygyrch i staff a phlant. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r amgylchedd hwnnw'n cefnogi ymgysylltu'n effeithiol a chyflawni gwaith personol priodol gyda phlant. Ond mae angen lleoliadau addas ar gyfer paneli gorchmynion atgyfeirio wyneb yn wyneb, a lleoliadau diogel i weithio gyda phlant sy'n dangos ymddygiad risg uchel. Mae cyfyngiadau sy'n deillio o bandemig Covid-19 wedi rhwystro mynediad at y rhain.

Mae'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn galluogi staff i gynllunio, cyflawni a chofnodi eu gwaith yn brydlon, a chael gafael ar wybodaeth yn ôl yr angen. Mae'r systemau'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth reoli angenrheidiol, ac yn hwyluso'r broses o'i chyfnewid â phartneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Cefnogir cynlluniau gwella gan systemau sicrwydd a mesurau perfformiad y GCI. Dechreuir gofyn am farn plant a'u rhieni neu ofalwyr er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn unol â strategaeth cyfranogiad sy'n datblygu. Mae'r GCI ar daith i wella'n gyflym, sydd wedi'i nodi mewn cynllun gweithredu blaenoriaeth, ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y chwe mis diwethaf.

Mae'r canlynol yn gryfderau sy'n perthyn i ddarpariaeth sefydliadol y GCI:

- aelodau gwybodus o'r bwrdd rheoli sy'n eiriolwyr effeithiol dros anghenion plant sy'n cael eu goruchwylio gan y GCI
- rheolwyr sydd â dealltwriaeth dda o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn ogystal â chynllun cadarn ar gyfer ysgogi gwelliannau
- llwythi achosion hylaw
- cynllun datblygu staff cynhwysfawr, sy'n cael ei weithredu
- darpariaeth dda o wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl
- mae'n cyfathrebu'n effeithiol gyda'r Llys Ieuenctid
- mae gwasanaethau'n cael eu darparu mewn lleoliadau hygyrch ledled Powys
- mae gwybodaeth reoli yn cael ei defnyddio i sbarduno gwelliant.

Fodd bynnag, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella:

- diffyg polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth neu ganllawiau ymarfer y GCI
- cydnerthedd o ran staffio
- diffyg rheolwyr achos a gwirfoddolwyr gwrywaidd
- goruchwyliaeth gan reolwyr
- dadansoddiad o anghenion plant
- gwreiddio darpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- datblygu gwasanaethau gwneud iawn a chyfiawnder adferol
- darparu gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu
- lleoliadau ar gyfer paneli gorchmynion atgyfeirio, a chyfleusterau ar gyfer cynnal cyfweliadau yn gyfrinachol yn ogystal ag ymyriadau gyda phlant risg uchel a'r rhai sy'n destun goruchwylio a gwylio dwys.

### Datrysiadau yn y llys

Gwnaethom edrych yn fanwl ar ddwy ddedfryd gymunedol a reolir gan y GCI. Rydym hefyd wedi cynnal cyfweliadau gyda'r ddau reolwr achos perthnasol. Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; gweithredu a darparu gwasanaethau; ac adolygu.

Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, i gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Er mai dim ond dau orchymyn atgyfeirio oedd yn y cyfnod samplu ar gyfer datrysiadau yn y llys, gwelsom ddiffyg o ran asesu diogelwch a lles plant yn y ddau achos, sy'n gyson â'n canfyddiadau ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd cynllunio ychydig yn well, yn enwedig o ran mynd i'r afael â diogelwch a lles, ond fel arall roedd yn anghyson ar gyfer ymataliad a'r perygl o niwed. Serch hynny, roedd cryfder gwirioneddol yn y ffordd yr oedd rheolwyr achos yn ymgysylltu â'r plant ac yn gweithio gyda nhw i ddarparu ymyriadau effeithiol, sy'n gwneud iawn am rai o'r diffygion cynharach o ran asesu a chynllunio. Er nad oedd newidiadau yn y ffactorau sy'n ymwneud â diogelwch a lles na pherygl o niwed i eraill sy'n golygu bod angen adolygiad ffurfiol, cafodd yr achosion hyn eu hadolygu'n effeithiol, gyda'r plant a'u rhieni'n ymwneud yn llawn â'r broses a'r cynlluniau'n cael eu haddasu lle bo hynny'n briodol.

Gwnaethom nodi'r cryfderau canlynol:

- cynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr yn ystyrlon wrth asesu, cynllunio ac adolygu
- asesiadau a chynlluniau yn rhoi ystyriaeth i allu, aeddfedrwydd a chymhelliant plant
- ymgysylltu'n effeithiol â phlant, sy'n arwain at lefel cydymffurfio uchel ag ymyriadau.

Fodd bynnag, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella:

- tanasesu dosbarthiad diogelwch a lles, a'r risg i eraill
- cynllunio annigonol i ddelio â hapddigwyddiadau mewn cynlluniau i fynd i'r afael â risg i eraill.

### Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar bum achos a oedd yn cael eu rheoli gan y GCI a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybuddiad amodol ieuenctid, un rhybuddiad ieuenctid a thri datrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfweld y rheolwyr achos ym mhob un o'r pum achos.

Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; a gweithredu a darparu gwasanaethau. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, i gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir ar gyfer pob ffactor fod yn uwch na throthwy penodol ar gyfer pob agwedd o oruchwyliaeth er mwyn iddo gael ei ystyried yn foddhaol.

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Mae'r prosesau asesu ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn gadarn. Fodd bynnag, mae lle i wella o ran dadansoddi'r ffordd orau o gefnogi ymataliad plant, a nodi a phwyso a mesur pryderon am eu diogelwch a'u lles. Mae bylchau mewn rhai o'r cynlluniau i gefnogi ymataliad ac i gadw plant yn ddiogel, ond nid o ran mynd i'r afael â'r risg i eraill. Mae darparu ymyriadau priodol yn gryfder sylweddol, hyd yn oed ar adegau pan na chawsant eu hasesu'n wreiddiol fel rhai yr oedd eu hangen neu pan na chynlluniwyd ar eu cyfer.

Er bod rhai bylchau, mae'r canllawiau ymarfer ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth o safon i bob plentyn. Mae prosesau

gwneud penderfyniadau ar y cyd wedi hen ennill eu plwyf, ac ehangwyd y panel i gynnwys disgyblaethau eraill. Ond mae absenoldeb gwasanaethau plant fel aelod craidd yn rhywbeth pwysig a hepgorwyd. Mae plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn yr asesiadau cyn cyfarfod y panel, sy'n ceisio darparu ystod eang o ymyriadau, gan hyrwyddo amrywiaeth lle bo hynny'n bosibl.

Nid yw'r GCI yn gwerthuso polisi a darpariaeth y datrysiadau y tu allan i'r llys yn rheolaidd, nac yn rhoi digon o sylw i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, ac nid yw'r gwaith gwerthuso mae'n ei wneud yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol. Fodd bynnag, cafwyd adolygiad yn ddiweddar, sydd wedi ehangu'r aelodaeth ac wedi gwella'r ffordd mae'r panel yn gweithio. Mae lle i gynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr yn amlach yn y gwaith o werthuso ac adolygu'r polisi a'r ddarpariaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Mae'r cynllun yn llwyddiannus o ran lleihau nifer y rhai sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf, ac mae cyfraddau aildroseddu'r rhai y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud amdanynt y tu allan i'r llys yn isel.

Dyma'r prif gryfderau:

- Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn bersonol, ac mae'n ystyried amrywiaeth plant a'u sefyllfa deuluol a chymdeithasol.
- Ymgysylltir yn effeithiol â phlant, sy'n arwain at gyfraddau cydymffurfio uchel ag ymyriadau.
- Ymgysylltir yn effeithiol ag asiantaethau partner allweddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.
- Mae'r holl blant a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu gweld, ac mae asesiad AssetPlus yn cael ei gynnal cyn penderfynu ar y datrysiad.
- Gwelwyd cynnydd da o ran lleihau nifer y rhai sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf.

Fodd bynnag, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella:

- Mae dosbarthiad diogelwch a lles yn rhy isel yn aml.
- Nid yw adroddiad y plentyn ynghylch camddefnyddio sylweddau bob amser yn cael ei gynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu ymyriadau.
- Nid oes digon o gynllunio wrth gefn ar gyfer mynd i'r afael â ffactorau sy'n debygol o achosi mwy o berygl o niwed neu bryderon am ddiogelwch a lles.
- Nid oes gwerthusiad digonol o'r cynllun datrysiadau y tu allan i'r llys.

### Ailsefydlu

Rydym wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Ni chafwyd unrhyw achosion ailsefydlu yn ystod y cyfnod arolygu.

Mae ein prif ganfyddiadau am waith ailsefydlu fel a ganlyn:

- Mae polisi ailsefydlu newydd ar waith sy'n cynnwys panel ailsefydlu o asiantaethau partner i wneud cynlluniau ar gyfer rhyddhau ar y cyd, ynghyd â phlant a'u rhieni neu ofalwyr.

Ond:

- Dylid cynnwys gwasanaethau plant fel aelod craidd o'r panel ailsefydlu, er mwyn sicrhau bod anghenion llety'r plant yn cael eu bodloni.

# Argymhellion

O ganlyniad i ganfyddiadau ein harolygiad, rydym wedi gwneud naw o argymhellion y credwn, os cânt eu gweithredu, y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwasanaethau troseddau ieuenctid ym Mhowys. Bydd hyn yn gwella bywydau'r plant sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau troseddau ieuenctid, ac yn diogelu'r cyhoedd yn well.

**Dylai GCI Powys wneud y canlynol:**

1. datblygu canllawiau ymarfer a pholisi ar gyfer mynd i'r afael ag amrywiaeth, cydraddoldeb ac anghymesuredd wrth ddarparu gwasanaethau
2. gwella goruchwyliaeth y rheolwyr o achosion a chymorth i staff
3. gwella'r gwaith o ddadansoddi anghenion plant, fel sail ar gyfer darparu gwasanaethau
4. sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i asesu ac ymateb i anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant
5. sicrhau bod gwasanaethau effeithiol i gefnogi addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant yn cael eu darparu
6. darparu lleoliadau addas i alluogi paneli gorchmynion atgyfeirio i gael eu cyflwyno wyneb yn wyneb a sicrhau bod cyfleusterau cyfrinachol ar gael ar gyfer darparu ymyriadau gyda phlant
7. gwella ansawdd asesiadau a dadansoddi sut i gefnogi ymataliad plant a sut i'w cadw'n ddiogel
8. gwella trefniadau cynllunio i gefnogi ymataliad plant a'u cadw'n ddiogel, gan gynnwys cynllunio ar gyfer hapddigwyddiadau lle mae'r risg yn cynyddu
9. cynnwys gwasanaethau plant fel aelodau craidd o'r ganolfan y tu allan i'r llys a phaneli ailsefydlu.

# Cefndir

Mae timau troseddau ieuenctid yn gweithio gyda phlant rhwng 10 a 18 oed sydd wedi cael eu dedfrydu gan lys, neu sydd wedi dod i sylw'r heddlu oherwydd eu hymddygiad troseddol ond heb gael eu cyhuddo – yn hytrach, cawsant eu trin y tu allan i'r llys. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu'r agweddau hyn ar y gwasanaethau troseddau ieuenctid.

Mae Timau Troseddau Ieuenctid yn bartneriaethau statudol, ac maent yn amlddisgyblaethol, er mwyn delio ag anghenion y plentyn cyfan. Rhaid iddynt gael staff o wasanaethau addysg a gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf a'r gwasanaethau iechyd lleol.[3] Mae'r rhan fwyaf o Dimau Troseddau Ieuenctid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol, ond gall hyn amrywio.

Mae gwaith y Timau Troseddau Ieuenctid yn cael ei lywodraethu a'i siapio gan amrywiaeth o ddeddfwriaethau a chanllawiau sy'n benodol i'r sector cyfiawnder ieuenctid (fel Safonau Cenedlaethol Cyfiawnder Ieuenctid) neu sy'n berthnasol ar draws y sector cyfiawnder troseddol (er enghraifft, y canllawiau Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd). Mae Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr yn darparu rhywfaint o gyllid i'r Timau Troseddau Ieuenctid. Mae hefyd yn monitro eu perfformiad ac yn cyhoeddi canllawiau ynghylch sut y dylid gwneud pethau.

Mae GCI Powys yn bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n perthyn i'r gwasanaethau plant yng Nghyngor Sir Powys. Mae'r gwasanaeth yn gwasanaethu ardal ddaearyddol wledig fawr ond mae'n rheoli llwyth achosion cymharol fach. Pennaeth y gwasanaethau plant sy'n arwain y gwasanaeth, ac mae'r uwch reolwr ar gyfer ymyrryd ac atal yn gyfrifol am y GCI. Y bwrdd rheoli sy'n llywodraethu'r GCI, a chaiff ei gadeirio gan y cyfarwyddwr gweithredol – pobl a datblygu sefydliadol.

Yn 2020, cwblhawyd cam dau o waith ailstrwythuro Gwasanaethau Plant Powys. Roedd hyn yn cynnwys ailstrwythuro'r GCI, a oedd, bryd hynny, wedi'i rannu'n dimau'r gogledd a'r de. Roedd y gwaith ailstrwythuro'n rhan o'r gwaith gwella cyffredinol ar gyfer y Gwasanaethau Plant. Nid yw'r GCI wedi'i adolygu ers 2013. Roedd llawer wedi newid: roedd nifer yr achosion wedi gostwng yn sylweddol ac nid oedd y gwaith yn y gwasanaeth wedi datblygu yn unol ag ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Datblygwyd y strwythur newydd i ddarparu digon o staff i ateb y galw, ynghyd â chynnig cyfle i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, gyda phwyslais arbennig ar atal.

Roedd y gwaith ailstrwythuro'n cynnwys cael gwared ar ddau dîm ardal ar wahân, a chyflwyno un tîm cyfiawnder ieuenctid a thîm atal a chyfiawnder adferol yn lle hynny. Ymunodd y swyddi goruchwylio a chymorth gweinyddol â thîm cymorth busnes ehangach y Gwasanaethau Plant er mwyn darparu mwy o gydnerthedd. Roedd y gwaith ailstrwythuro wedi herio'r gweithlu presennol a oedd heb weld unrhyw newid ers

[3] Mae *Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998* yn nodi'r trefniadau ar gyfer Timau Troseddau Ieuenctid lleol a gweithio mewn partneriaeth.

blynyddoedd lawer. O ganlyniad, mae'r GCI wedi cael cyfnodau lle nad oedd digon o staff oherwydd swyddi gwag a chyfnodau o salwch tymor hir. Nid oes yr un aelod o'r tîm rheoli blaenorol yn dal yn ei swydd. Ar yr ochr gadarnhaol, mae'r strwythur newydd wedi creu cyfleoedd newydd i'r staff presennol gael datblygu, ac er nad oes rheolwr tîm parhaol ar gyfer y GCI wedi'i benodi eto, mae'r tîm rheoli presennol wedi creu ffocws newydd ar gyfer y gwasanaeth sy'n anelu at hyrwyddo arferion gorau.

Mae GCI Powys yn un o bedwar tîm troseddau ieuenctid sy'n gwasanaethu ardal Heddlu Dyfed-Powys ac maent yn cydweithio i ddarparu hyfforddiant a gwasanaethau. Yn ogystal â phartneriaid statudol, mae GCI Powys yn elwa ar gyfraniad ehangach gan sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys CAIS sy'n darparu dau weithiwr cyfwerth ag amser llawn sy'n cefnogi plant â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Nod GCI Powys yw cyflawni'r dyheadau a nodir yn y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid gan Lywodraeth Cymru.

# Ffeithiau am y Cyd-destun

### Gwybodaeth am y boblogaeth[4]

| | |
|---|---|
| **123** | Cyfradd y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf am bob 100,000 ym Mhowys[5] |
| **167** | Cyfradd y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf am bob 100,000 yng Nghymru a Lloegr |
| **44%** | Cyfradd aildroseddu ym Mhowys[6] |
| **35.6%** | Cyfradd aildroseddu yng Nghymru a Lloegr |

| | |
|---|---|
| **133,030** | Cyfanswm poblogaeth Powys |
| **11,314** | Cyfanswm y boblogaeth ifanc (10–17 oed) ym Mhowys |

### Gwybodaeth am lwyth achosion[7]

| Oedran | 10–14 oed | 15–17 oed |
|---|---|---|
| GCI Powys | **17%** | **83%** |
| Cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr | 22% | 78% |

| Hil/ethnigrwydd[8] | Gwyn | Pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| GCI Powys | **87%** | **7%** | **7%** |
| Y boblogaeth ifanc (10–17 oed) ym Mhowys | 98% | 2% | |

| Rhywedd | Gwrywaidd | Benywaidd |
|---|---|---|
| GCI Powys | **93%** | **7%** |
| Cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr | 85% | 15% |

[4] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (Mehefin 2021). *Amcangyfrifon o boblogaeth y DU, canol 2020.*

[5] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2021). *Y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf, Ionawr - Rhagfyr 2020.*

[6] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Ystadegau aildroseddu, Hydref 2018 - Medi 2019.*

[7] Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. (2021). *Ystadegau blynyddol cyfiawnder ieuenctid: 2019 i 2020.*

[8] Data a ddarparwyd gan y GCI.

**Data llwyth achosion ychwanegol**[9]

| | |
|---|---|
| **28** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol, gyda: |
| **18** | Datrysiad yn y llys |
| **10** | Datrysiad y tu allan i'r llys |

**O'r 18 datrysiad yn y llys:**

| | |
|---|---|
| **17** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol ar ddedfrydau cymunedol |
| **0** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol yn y ddalfa |
| **1** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol ar drwydded |

**O'r 10 datrysiad y tu allan i'r llys:**

| | |
|---|---|
| **1** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol gyda rhybuddiad ieuenctid |
| **0** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol gyda rhybuddiad amodol ieuenctid |
| **9** | Cyfanswm y llwyth achosion presennol: datrysiad cymunedol |

**Statws addysg ac amddiffyn plant y llwyth achosion:**

| | |
|---|---|
| **20%** | Canran y llwyth achosion presennol ar gyfer 'Plant sy'n Derbyn Gofal' sy'n byw yn ardal y GCI |
| **7%** | Canran y llwyth achosion presennol gyda chynllun amddiffyn plant |
| **18%** | Canran y llwyth achosion presennol gyda chynllun plentyn mewn angen |
| **10%** | Canran y llwyth achosion presennol 16 oed ac iau nad ydynt yn yr ysgol yn llawn amser/uned cyfeirio disgyblion/addysg amgen |
| **19%** | Canran y plant 16 oed ac iau mewn uned cyfeirio disgyblion, mewn addysg amgen neu'n mynychu'r ysgol yn rhan-amser |
| **17%** | Canran y llwyth achosion presennol 17 oed neu'n hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |

**Ar gyfer plant sy'n destun datrysiadau yn y llys (gan gynnwys achos ailsefydlu):**

| Math o drosedd[10] | % |
|---|---|
| Trais yn erbyn y person | 50% |
| Troseddau moduro ditiol | 50% |

[9] Data a ddarparwyd gan y GCI, sy'n adlewyrchu'r llwyth achosion adeg cyhoeddi'r arolygiad.

[10] Data o'r achosion a gafodd eu hasesu yn ystod yr arolygiad hwn.

# 1. Darpariaeth sefydliadol

Mae llywodraethu ac arweinyddiaeth wedi cael sgôr 'Da'. Mae bwrdd rheoli'r GCI yn gosod cynllun clir ar gyfer darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bob plentyn ac mae'n gweithio gyda staff a phlant i fireinio'r weledigaeth. Mae'r bwrdd yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol ac anstatudol angenrheidiol. Mae cadeirydd y bwrdd yn ymgysylltu'n dda, a chanddo ddealltwriaeth ddigonol o waith y GCI. Mae aelodau eraill yn gwneud yn siŵr eu bod yn bresennol, ac yn cydnabod y cyfraniadau mae eu hasiantaethau yn eu gwneud. Fodd bynnag, nid yw'r holl anghenion amrywiol yn cael sylw ac nid oes digon o bwyslais ar ddarparu gwasanaeth sy'n ymateb i amrywiaeth.

Mae aelodau'r Bwrdd yn cefnogi gwaith y GCI yn eu rolau ehangach. Maen nhw'n canolbwyntio ar y plentyn, yn rhoi blaenoriaeth i waith i gefnogi ymataliad ac atal niwed, ac yn cefnogi integreiddio â gwasanaethau ehangach. Fodd bynnag, nid yw pob risg i'r gwasanaeth wedi'i deall yn ddigonol, ac mae bylchau yn y mesurau lliniaru a'r rheolaethau sydd ar waith.

Mae tîm arwain y GCI ran o'r ffordd drwy broses o newid sylweddol. Serch hynny, mae wedi darparu cyswllt effeithiol â'r bwrdd dros y pum mis diwethaf ers i reolwyr newydd gael eu penodi, ac mae wedi cyflawni a gweithredu'r strategaeth a'r cynlluniau'n llwyddiannus. Mae'r tîm yn cyfleu'r weledigaeth a'r strategaeth yn effeithiol i staff a rhanddeiliaid, ac yn hyrwyddo bod yn agored, herio'n adeiladol, a syniadau. Mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn trefniadau'r bartneriaeth, a'r hyn y maent yn atebol amdano.

Rhoddwyd sgôr 'Angen gwella' ar gyfer staffio. Caiff lefelau staffio eu cynllunio a'u hadolygu i gwrdd â'r gofynion sy'n newid a phroffiliau'r plant. Fodd bynnag, mae rhai diffygion yn y strategaeth ar gyfer cynnal ansawdd y ddarpariaeth yn ystod absenoldebau staff sydd wedi'u trefnu a heb eu trefnu. Mae staff y GCI yn cynrychioli ethnigrwydd yr ardal, ond nid oes rheolwyr achos gwrywaidd. Defnyddir gwirfoddolwyr ac maent yn cael eu dewis yn briodol i gyflawni rolau sydd wedi'u diffinio'n glir, er bod angen mwy o wirfoddolwyr gwrywaidd.

Mae'r rhan fwyaf o staff wedi'u hysgogi i gyfrannu at ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae'r gwasanaeth wedi mynd drwy broses ailstrwythuro boenus yn ystod cyfnod Covid-19, ac wedi colli llawer o staff a rheolwyr gwybodus a phrofiadol, yn ystod y newidiadau strwythurol ac ar ôl hynny. Er bod llawer o staff sydd newydd gael eu penodi neu eu dyrchafu yn teimlo'n gyffrous am y ffordd ymlaen, mae rhai staff sefydledig yn dal i ddod i delerau â'r newidiadau diweddar, ac mae angen rhoi sylw i'r diffyg cydnerthedd staff.

Mae llawer o staff profiadol iawn wedi gadael ac mae staff newydd wedi cael eu penodi yn eu lle; mae'r rhain yn awyddus, ond mae angen iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd. Mae gan y rhaglen gynefino ar gyfer staff newydd ei chyfyngiadau oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ar staff o ran mynd i swyddfeydd neu gwrdd â chydweithwyr wyneb yn wyneb, ac mae hyn wedi cael effaith oherwydd nifer y staff newydd sy'n ymuno â'r gwasanaeth. Yn ddiweddar, mae'r GCI wedi llunio cynlluniau a dechrau eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael ag anghenion dysgu'r holl staff yn ogystal â darparu mynediad priodol at hyfforddiant mewn swydd. Nid yw'r prosesau ar gyfer adnabod a gwobrwyo gwaith eithriadol wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae'r staff yn fodlon â'r oruchwyliaeth a gânt, ond barnwyd bod goruchwyliaeth y rheolwyr yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd yn annigonol.

Rhoddwyd sgôr 'Angen gwella' ar gyfer partneriaethau a gwasanaethau. Nid yw dadansoddiad y GCI o broffil plant yn cael ei ddiweddaru'n gyson ac nid yw'n cynnwys yr ystod lawn o anghenion ymatal, ffactorau diogelwch a lles, risgiau o niwed, a ffactorau amrywiaeth. Er bod y GCI yn rhoi digon o sylw i batrymau lleol o ran dedfrydu a mathau o droseddau, gan helpu i ragweld galw yn y dyfodol, mae rhai cyfleoedd i ddefnyddio dulliau dadansoddi er mwyn dylanwadu ar gyflenwi gwasanaethau yn cael eu colli.

Mae gan bartneriaeth y GCI fynediad at nifer, ystod ac ansawdd y gwasanaethau, gan gynnwys ymyriadau arbenigol a phrif ffrwd, i ddiwallu llawer o anghenion y plant o ran ymatal. Mae'r trefniadau gyda'r rhan fwyaf o bartneriaid a darparwyr yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi ymataliad, cynnal diogelwch a lles, a rheoli'r risg o niwed i eraill. Mae'r GCI yn sicrhau bod llysoedd yn ddigon ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael, gan gefnogi eu penderfyniadau dedfrydu. Fodd bynnag, nid oes llwybr y cytunir arno ar hyn o bryd i fynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu; nid oes swyddog addysg; ac mae angen gwreiddio'r llwybrau i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Nid yw gwasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiaeth plant wedi'u sefydlu. Mae fframwaith ansawdd newydd ar fin dod yn weithredol.

Mae gwybodaeth a chyfleusterau wedi cael sgôr 'Da'. Mae bron pob un o'r canllawiau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i alluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pob plentyn. Fodd bynnag, nid oes polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth, ac nid oes ystyriaeth i effaith y polisïau a'r canllawiau ar grwpiau amrywiol. Mae'r GCI wrthi'n rhoi ei gyfres newydd o ganllawiau ar waith ac yn cyfleu hynny i'r staff ac asiantaethau partner.

Mae'r GCI yn cyflawni ei waith mewn mannau sy'n ddigon hygyrch i staff a phlant. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r amgylchedd hwnnw'n cefnogi ymgysylltu'n effeithiol a chyflawni gwaith personol priodol gyda phlant. Ond mae angen lleoliadau addas ar gyfer paneli gorchmynion atgyfeirio wyneb yn wyneb, a lleoliadau diogel i weithio gyda phlant sy'n dangos ymddygiad risg uchel. Mae cyfyngiadau sy'n deillio o bandemig Covid-19 wedi rhwystro mynediad at y rhain.

Mae'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn galluogi staff i gynllunio, cyflawni a chofnodi eu gwaith yn brydlon, a chael gafael ar wybodaeth yn ôl yr angen. Mae'r systemau'n gallu cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth reoli angenrheidiol, a hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth â phartneriaid, darparwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Cefnogir cynlluniau gwella gan systemau sicrwydd a mesurau perfformiad y GCI. Fodd bynnag, nid yw'r holl anghenion amrywiaeth yn cael eu dadansoddi'n ddigonol. Dechreuir gofyn am farn plant a'u rhieni neu ofalwyr er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn unol â strategaeth cyfranogiad sy'n datblygu. Mae'r GCI ar daith i wella'n gyflym, sydd wedi'i nodi mewn cynllun gweithredu blaenoriaeth, ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y chwe mis diwethaf.

**Cryfderau:**

- Mae aelodau o'r bwrdd rheoli yn wybodus ac yn eiriolwyr effeithiol dros anghenion plant sy'n cael eu goruchwylio gan y GCI.
- Mae gan reolwyr ddealltwriaeth dda o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn ogystal â chynllun cadarn ar gyfer ysgogi gwelliannau.
- Mae llwythi achosion yn hylaw.
- Mae cynllun datblygu staff cynhwysfawr yn cael ei weithredu.

- Mae darpariaeth dda o wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.
- Mae cyfathrebu effeithiol gyda'r Llys Ieuenctid
- Mae gwasanaethau'n cael eu darparu mewn lleoliadau hygyrch ledled Powys
- Mae gwybodaeth reoli yn cael ei defnyddio i sbarduno gwelliant.

**Meysydd i'w gwella:**

- Nid oes polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth neu ganllawiau ymarfer y GCI.
- Mae diffyg cydnerthedd o ran staffio.
- Nid oes rheolwyr achos na gwirfoddolwyr gwrywaidd.
- Mae goruchwyliaeth y rheolwyr yn annigonol.
- Mae diffyg dadansoddi anghenion plant.
- Nid yw'r ddarpariaeth addysg, hyfforddiant a chyflogaeth wedi'i gwreiddio.
- Nid yw'r gwasanaethau gwneud iawn a chyfiawnder adferol wedi'u datblygu'n ddigonol.
- Ni ddarperir gwasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Mae angen lleoliadau ar gyfer paneli gorchmynion atgyfeirio, a chyfleusterau ar gyfer cynnal cyfweliadau yn gyfrinachol yn ogystal ag ymyriadau gyda phlant risg uchel a'r rhai sy'n destun goruchwylio a gwylio dwys.

Mae sefydliadau sy'n cael eu harwain yn dda ac sy'n cael eu rheoli'n dda yn fwy tebygol o gyflawni eu nodau. Rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

| **1.1. Llywodraethu ac arweinyddiaeth** | ● |
|---|---|
| Mae dulliau llywodraethu ac arweinyddiaeth y timau troseddau ieuenctid yn cefnogi ac yn hyrwyddo darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. | Da |

### Data allweddol

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y gwariant yn y flwyddyn ariannol flaenorol | £864,583 |
| Cyfanswm y gyllideb ragamcanol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol | £932,607 |

Wrth wneud penderfyniad am lywodraethu ac arweinyddiaeth, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes gweledigaeth a strategaeth leol effeithiol ar gyfer darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

Ym mis Gorffennaf 2021, cytunodd y bwrdd rheoli ar ei strategaeth a'i gynllun cyfiawnder ieuenctid ar gyfer 2021/2022, sy'n nodi ei flaenoriaethau. Parheir i ymgynghori â staff a phlant i ddatblygu gweledigaeth flaengar. Mae'r bwrdd yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol ar lefel uwch, yn ogystal ag amrywiaeth o bartneriaid eraill. Cafodd ei ehangu'n ddiweddar i gynnwys rheolwyr o faes diogelwch cymunedol, gwasanaethau cyffuriau ac alcohol, a seicolegydd addysg.

Dim ond unwaith oedd y bwrdd wedi cyfarfod yn ystod 2020. Fodd bynnag, mae'r bwrdd wedi cwrdd yn rheolaidd ers mis Ionawr 2021, gyda nifer dda yn bresennol. Mae aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan weithredol ac maent wedi cynnal ymarfer i bwyso a mesur eu cyfraniad i'r bwrdd. Mae cadeirydd y bwrdd yn cyflawni rôl cyfarwyddwr gwasanaethau plant ac oedolion. Er ei bod yn absennol oherwydd salwch yn ystod yr arolygiad, mae cofnodion y bwrdd yn cofnodi ei chyfraniad gwybodus drwy gydol 2021. Fodd bynnag, mae bwlch am nad oes is-gadeirydd.

Ym mis Mehefin 2021, penodwyd uwch reolwr interim allanol ar gyfer y GCI ar gontract chwe mis. Roedd yn darparu cymorth rheoli ychwanegol i'r rheolwr gwasanaeth newydd. Mae cynllun gweithredu blaenoriaeth manwl ar waith er mwyn mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yng ngwaith y GCI. Bydd yr uwch reolwr interim yn symud i dîm troseddau ieuenctid arall cyn bo hir. Mae'r cynllun gweithredu blaenoriaeth wedi bod yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan reolwyr a'r bwrdd rheoli, ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud yn erbyn y camau a nodwyd.

Mae cynllun cyfiawnder ieuenctid 2021/2022 yn cydnabod bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu gorgynrychioli ar lwyth achosion y GCI (20 y cant), a bod plant ag anableddau a'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu tangynrychioli, o bosibl am nad yw eu hanghenion yn cael eu cydnabod na'u hasesu'n ddigonol.

### A yw'r trefniadau partneriaeth yn cefnogi darparu gwasanaethau'n effeithiol?

Mae aelodau'r bwrdd rheoli'n cysylltu â'r holl drefniadau partneriaeth perthnasol ym Mhowys ac ar draws y rhanbarth. Maent wedi dangos sut y maent yn gweithredu fel eiriolwyr dros anghenion plant y GCI, gan gyfeirio'n benodol at gynhwysiant addysgol, rhianta corfforaethol a throsglwyddo i wasanaethau prawf oedolion.

Mae'r nyrs Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn brofiadol iawn, ac mae wedi integreiddio'n dda i wasanaethau ehangach CAMHS ac yn eiriolwr trawma ar gyfer y GCI. Bydd y secondai prawf newydd, a oedd i fod i ddechrau ym mis Ionawr 2022, yn gweithio hanner yr amser yn y GCI a hanner yr amser mewn gwasanaethau prawf oedolion, gan ddarparu pont i blant sy'n symud rhwng y gwasanaethau hyn. Adeg yr arolygiad, roedd y swyddog heddlu ar secondiad hefyd yn gwneud gwaith ar gyfer swydd cyfnod mamolaeth rhan-amser yn uned rheoli troseddwyr yr heddlu, a oedd yn golygu nad oedd ar gael gymaint i'r GCI ond roedd hefyd yn gwneud cysylltiadau defnyddiol gyda Threfniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) a gwasanaethau camfanteisio ar blant. Nid oes gweithiwr addysg ar hyn o bryd, ond mae'r rheolwyr addysg a chynhwysiant ar y bwrdd wedi nodi llwybrau ar gyfer atgyfeiriadau addysg ac maent yn cadw golwg ar y sefyllfa hon er mwyn canfod unrhyw anghenion sydd heb eu diwallu.

Nid oes strategaeth amrywiaeth ar hyn o bryd ac nid yw'r holl anghenion amrywiol yn cael eu cofnodi, eu nodi a'u diwallu ar lefel strategol.

### A yw arweinyddiaeth y timau troseddau ieuenctid yn cefnogi darparu gwasanaethau'n effeithiol?

Ymddeolodd y rheolwr tîm parhaol diwethaf ym mis Ebrill 2021 a chymerwyd ei le gan reolwr tîm interim am ychydig wythnosau, a oedd yn gweithio yn Llundain. Roedd bwlch o chwe wythnos wedyn lle'r oedd yr uwch reolwr interim o Lannau Mersi hefyd yn gwneud gwaith y rôl hon, cyn i reolwr tîm interim arall yn Llundain gael ei benodi. Adeg yr arolygiad, roedd swydd y rheolwr tîm parhaol yn cael ei hysbysebu, ac mae'r bwrdd yn cydnabod bod diffyg unigolyn profiadol yn y swydd barhaol hon, a fydd yn gweithio'n lleol, yn risg weithredol allweddol.

Mae arweinydd y tîm atal a chyfiawnder adferol hefyd yn mynd i gyfarfodydd y bwrdd, yn ogystal â rheolwr y gwasanaeth (a ddechreuodd yn ei swydd ym mis Mehefin 2021), yr uwch reolwr interim a'r rheolwr tîm interim. Cynhelir cyfarfodydd tîm, lle rhennir gwybodaeth gan y bwrdd gyda'r staff, bob pythefnos. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r tîm arwain wedi ystyried, diweddaru a sgorio'r cynllun gweithredu blaenoriaeth bob pythefnos er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn erbyn yr amcanion a'r cynlluniau penodol. Fodd bynnag, nid yw mynd i'r afael ag ymatebolrwydd ac amrywiaeth yn cael sylw penodol yn y cynllun hwn.

O'r saith aelod o staff a lenwodd ein holiadur, dywedodd pump ohonynt eu bod yn deall gweledigaeth a strategaeth bresennol y GCI yn 'eithaf da' neu'n 'dda iawn', a dywedodd yr un nifer eu bod yn 'eithaf ymwybodol' neu'n 'ymwybodol iawn' o weithgareddau'r bwrdd rheoli, a'u bod yn cael gwybod digon am faterion sy'n ymwneud â chyllideb, deddfwriaeth a staffio. O'r saith aelod o staff, dywedodd chwech ohonynt eu bod yn aml yn gallu cynnig syniadau a heriau i'w rheolwyr.

Cafodd y gwasanaeth ei ailstrwythuro rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2020, tra bo'r staff yn gweithio gartref oherwydd pandemig Covid-19. Roedd hwn yn gyfnod poenus, gyda llawer o staff yn flin ac yn ypset ynglŷn â'r ffordd yr ymdriniwyd â'r broses. Mae cynllun cyfiawnder ieuenctid y GCI yn cynnwys cofrestr risg fer, ond mae'r asesiad o debygolrwydd ac effaith ar goll, ac mae angen i'r mesurau lliniaru a nodwyd fod yn fwy manwl a phenodol. Nid yw'r risg allweddol o golli cynifer o staff profiadol a'r angen i gadw a meithrin gwybodaeth ymarferol yn cael sylw.

## 1.2. Staff

| | |
|---|---|
| Mae staff yn y timau troseddau ieuenctid wedi'u grymuso i ddarparu gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i bob plentyn. | Angen gwella |

### Data staffio allweddol[11]

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn (FTE)) | 17 |
| Cyfanswm nifer y rheolwyr achos cymwysedig (cyfwerth ag amser llawn)[12] | 4 |
| Cyfradd y swyddi gwag (cyfanswm y swyddi heb eu llenwi fel canran o gyfanswm y staff) | 7% |
| Cyfartaledd y rheolwyr llwyth achosion (cyfwerth ag amser llawn)[13] | 5 |
| Nifer y diwrnodau gwaith blynyddol ar gyfartaledd lle ceir absenoldeb oherwydd salwch (holl staff) | 6 |
| Cyfradd gadael staff (canran o'r holl staff a adawodd yn ystod cyfnod o 12 mis, gyda'r broses ailstrwythuro yn effeithio ar hynny) | 34% |

[11] Data a ddarparwyd gan y GCI ac sy'n adlewyrchu'r staffio adeg cyhoeddi'r arolygiad.

[12] Rheolwyr achos cymwysedig yw'r rheini sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid neu brawf perthnasol.

[13] Data a ddarparwyd gan y GCI, sy'n seiliedig ar staffio a llwyth gwaith adeg cyhoeddi'r arolygiad.

Wrth wneud penderfyniad am staffio, rydym yn ystyried yr atebion i’r pum cwestiwn canlynol:

**A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

Ers mis Hydref 2020 mae nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn wedi gostwng 1.5, i 20.9. Mae 8.6 o swyddi rheolwr achos cyfwerth ag amser llawn, yn ogystal â swydd swyddog prawf rhan-amser a phrif weithiwr cymdeithasol, sydd â llwyth achosion llai.

Mae nifer y swyddi rheolwr achos wedi gostwng o 15.1 cyfwerth ag amser llawn i 8.6, sy’n cyd-fynd â’r gostyngiad yn y llwyth gwaith dros y blynyddoedd diwethaf. Pump yw’r llwyth achosion ar gyfartaledd, gyda 25 y cant yn achosion atal. Roedd pob un o’r staff a gafodd eu holi'n dweud eu bod yn gallu delio â'u llwyth gwaith.

Mae Powys yn ymestyn dros chwarter o arwynebedd Cymru. Cyn hynny, roedd y GCI yn cynnwys dau dîm, un yng ngogledd Powys a’r llall yn y de. Erbyn hyn, mae’r gwasanaeth yn cynnwys tîm ar ôl y llys a thîm atal a chyfiawnder adferol, ac mae’r ddau ohonynt yn gwasanaethu’r ardal gyfan, sy’n golygu bod yn rhaid i staff deithio’n bell i weld y plant.

Adeg yr arolygiad, roedd dau o’r naw rheolwr achos yn absennol oherwydd salwch, roedd un newydd adael a byddai un arall yn gadael cyn bo hir. Roedd swydd y swyddog prawf yn wag, ac roedd unigolyn newydd i fod i gyrraedd ym mis Ionawr 2022. Mae’r gwaith o recriwtio rheolwr tîm parhaol yn mynd rhagddo, a bydd swyddog cymorth busnes, a fydd yn gyfrifol am ddata a gwybodaeth y GCI, yn dechrau yn ei swydd maes o law. Mewn dau o’r achosion y tu allan i’r llys, nododd yr arolygwyr nad oedd darpariaeth effeithiol ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch, ac roedd hynny’n golygu bod bylchau estynedig cyn i ymyriadau ddechrau.

**A yw sgiliau staff y timau troseddau ieuenctid yn cefnogi darparu gwasanaeth personol, ymatebol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

Mae pob rheolwr achos yn fenywaidd; roedd y deiliad swydd gwrywaidd olaf wedi gadael y gwasanaeth yn ddiweddar. Dim ond un o’r wyth gwirfoddolwr sy’n wrywaidd. Mae’r anghydbwysedd hwn o ran rhywedd yn broblemus, yn enwedig pan fydd angen model rôl gwrywaidd ar blant neu pan fyddir yn gweithio gyda rhai achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol, lle gellid nodi bod angen mynediad at weithiwr gwrywaidd. Mae dau aelod o staff du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac mae un ohonynt mewn swydd arweiniol, sy’n adlewyrchu cyfansoddiad ethnig yr ardal.

Mae nifer y staff gwaith cymdeithasol a phrawf cymwysedig wedi gostwng o chwech i bedwar ac maent yn ymwneud yn bennaf â’r gwaith ar ôl y llys. Mae’r staff yn y tîm atal a chyfiawnder adferol yn llai profiadol ac mae nifer ohonynt wrthi’n cwblhau’r Dystysgrif mewn Ymarfer Effeithiol.

Ar ôl i ddau gydlynydd cyfiawnder adferol adael yn sgil y broses ailstrwythuro, rhannwyd eu swyddogaeth ar draws y tîm atal a chyfiawnder adferol, gyda staff yn dal achosion plant sydd wedi troseddu yn ogystal â dioddefwyr. Mae’r trefniant anfoddhaol hwn bellach wedi’i wrthdroi, gyda chydlynydd dulliau adferol amser llawn a gweithiwr dioddefwyr yn dechrau mewn swydd yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae’r bwlch yn y canol wedi arwain at golli sgiliau a gwybodaeth, ac mae angen meithrin profiad a dealltwriaeth o’r gwaith hwn.

**A yw goruchwylio gwaith yn cefnogi darpariaeth a datblygiad proffesiynol o ansawdd uchel?**

Dywedodd y saith aelod o staff a ymatebodd i’n harolwg fod yr oruchwyliaeth a gawsant yn ‘briodol’ a bod ansawdd yr oruchwyliaeth yn ‘dda iawn’. Adeg cyfweld y rheolwyr achos,

dywedodd pump o'r chwech fod goruchwyliaeth y rheolwyr o'r achosion a arolygwyd yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd yr arolygwyr yn teimlo nad oedd yr oruchwyliaeth yn ddigonol mewn chwech o'r saith achos a adolygwyd. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd ag archwiliad ansawdd y GCI ei hun, ac o ganlyniad i hynny cynhaliodd yr uwch reolwr interim weithdy i reolwyr llinell a oedd yn canolbwyntio ar yr hyn a olygir wrth oruchwyliaeth effeithiol. Mae'r broses o oruchwylio'r gwirfoddolwyr wedi bod yn anghyson, ac erbyn hyn mae'r cydlynydd dulliau adferol wedi dechrau cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda nhw.

Trefnwyd rhaglen gynefino i'r staff newydd, sydd bellach yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar-lein ar amrywiaeth a chydraddoldeb. Fodd bynnag, gyda'r rhan fwyaf o staff yn gweithio gartref, mae'n fwy anodd i weithwyr newydd gael pen ffordd a chael gwybodaeth uniongyrchol am yr holl staff a phartneriaid y mae angen iddynt weithio gyda nhw er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol.

Gyda newidiadau o ran rheolwyr llinell a nifer o staff newydd yn cyrraedd, dim ond tri o'r saith aelod o staff a ymatebodd i'n harolwg oedd wedi cael gwerthusiad yn ddiweddar, gyda dau'n ei ddisgrifio'n 'eithaf gwerthfawr' ac un yn dweud ei fod yn 'werthfawr iawn'. Disgrifiodd rheolwr y gwasanaeth a'r uwch reolwr interim sut yr eir i'r afael â pherfformiad gwael drwy gymysgedd o gefnogi a herio, gan symud i weithdrefnau ffurfiol gyda chymorth staff adnoddau dynol lle bo angen.

### A yw'r trefniadau ar gyfer dysgu a datblygu yn gynhwysfawr ac yn ymatebol?

Ym mis Gorffennaf 2021, lluniodd yr uwch reolwr interim gynllun hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol. Mae'r rhaglenni allweddol yn cynnwys hyfforddiant ar y canlynol: AssetPlus i wella asesiadau; rheoli achosion uwch; y model adfer ar ôl trawma (Mawrth 2022); ailsefydlu adeiladol; cyfiawnder adferol; ac Asesiad, Ymyrraeth a Symud Ymlaen (AIM) 3. Mae'r hyfforddiant yn agored i holl staff y GCI, ac mae'r hyfforddiant ar gyfiawnder adferol hefyd ar gael i wirfoddolwyr.

O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg staff, dywedodd pob un ohonynt fod eu hanghenion o ran hyfforddiant yn cael eu diwallu 'gan fwyaf' neu'n 'llwyr'. Fodd bynnag, dim ond un o'r pedwar gwirfoddolwr a ddywedodd fod yr hyfforddiant a gawsant yn 'dda iawn' o ran diwallu ei anghenion. Roedd yn rhaid i rai aros yn hir o'r adeg penodi hyd at yr hyfforddiant cychwynnol. Ym mis Medi 2021, penodwyd seicolegydd addysg i weithio un diwrnod yr wythnos i'r GCI; mae hynny wedi darparu cyfleoedd i ymgynghori ar achosion a chynnal goruchwyliaeth glinigol.

### A yw rheolwyr yn rhoi digon o sylw i ymgysylltu â staff?

O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg staff, dywedodd pump o'r saith aelod o staff eu bod yn cael eu cymell gan y GCI 'i raddau helaeth' i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a dywedodd pob un o'r pedwar gwirfoddolwr hynny hefyd. Roedd trosiant staff yn y flwyddyn hyd at fis Hydref 2020 yn 20 y cant ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r ad-drefnu, cododd i 34 y cant. Yn ystod y cyfnod blaenorol, roedd salwch staff yn 39 diwrnod y flwyddyn i bob aelod o staff, gan ostwng i chwe diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr uwch reolwr yn arolygu'r staff, yn gwrando ar eu pryderon ac yn cymryd nifer o gamau penodol, a oedd wedi'u cynnwys mewn ymateb 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Nid oes polisi gwobrwyo a chydnabod yn y GCI ar hyn o bryd, ond rhoddwyd ystyriaeth i enwebu 'cyflogai'r mis'.

Er bod staff yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod y cyfnod o weithio o bell, roeddent yn dymuno dychwelyd i'w swyddfeydd gyda'u cydweithwyr er mwyn gwrthbwyso'r anfanteision o weithio gartref. Disgrifiwyd proses yr ad-drefnu fel

problematig, yn y ffordd y cafodd ei chynnal yng nghanol y pandemig, gyda staff yn teimlo'n ynysig a heb gyfle i gwrdd wyneb yn wyneb â chydweithwyr i gael gwybodaeth a chefnogaeth. Mae effeithiau'r ad-drefnu'n dal i gael eu teimlo, ac nid oes digon o sylw wedi cael ei roi yn ddiweddarach i feithrin cydnerthedd staff.

| **1.3. Partneriaethau a gwasanaethau** | |
|---|---|
| Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael, sy'n golygu bod modd cynnig darpariaeth bersonol ac ymatebol i bob plentyn. | Angen gwella |

**Nodweddion llwyth achosion**

| | |
|---|---|
| Canran y llwyth achosion presennol gyda phroblemau iechyd meddwl | 63% |
| Canran y llwyth achosion presennol gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau | 67% |
| Canran y llwyth achosion presennol sydd ag anabledd dysgu neu anhawster dysgu, neu sy'n destun cynllun addysg, iechyd a gofal | 27% |

Wrth wneud penderfyniad am bartneriaethau a gwasanaethau, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes dadansoddiad cyfredol a digon cynhwysfawr o broffil plant, a ddefnyddir gan y timau troseddau ieuenctid i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n dda?**

Ar hyn o bryd nid oes dadansoddiad cyson o anghenion ymatal plant. Mae cryn dipyn o wybodaeth o'r fath ar gael yn AssetPlus; fodd bynnag, gan fod swydd y goruchwyliwr gwasanaethau cymorth yn wag, nid yw ar gael yn hwylus, er ei bod yn cael ei darparu ar sail ad hoc gan wasanaeth rhaglenni a busnes y gwasanaethau plant. Yn yr un modd, nid yw ffactorau sy'n ymwneud â diogelwch a lles, a'r risg o niwed yn cael eu dadansoddi fel mater o drefn, er bod y rheolwyr yn adolygu data ar nifer y plant ym mhob categori risg bob wythnos. Mae rheolwyr yn ystyried tueddiadau o ran dedfrydu a datrysiadau y tu allan i'r llys fel rhan o'u gwaith o gynllunio adnoddau.

Mae dau y cant o boblogaeth Powys o gefndir lleiafrifoedd ethnig, o'i gymharu â saith y cant o'r llwyth achosion presennol (tri phlentyn). Nid yw'r GCI yn cofnodi nac yn dadansoddi unrhyw ddata ar grefydd a chred plant, na'u rhywioldeb na'u ffafriaeth am wasanaeth cyfrwng Cymraeg. Mae data ar nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mhowys wedi cael ei ddadansoddi a'i gyflwyno i'r bwrdd rhianta corfforaethol fel rhan o fwriad i leihau eu gorgynrychiolaeth yn achosion y GCI.

Mae dadansoddiad o'r ymyriadau cyfiawnder adferol a wnaed wedi arwain at wneud swydd y cydlynydd dulliau adferol yn un amser llawn, er mwyn ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i gynnwys yr opsiwn o gynadledda cyfiawnder adferol. Cytunwyd ar strategaeth gyfranogi yn ddiweddar, ond nid yw wedi arwain eto at gasglu unrhyw adborth gan blant a theuluoedd am y gwasanaethau y byddent yn hoffi eu gweld yn cael eu comisiynu.

**A yw partneriaeth y timau troseddau ieuenctid yn darparu'r nifer, yr ystod a'r ansawdd o wasanaethau ac ymyriadau sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion pob plentyn?**

Ar 25 Hydref 2021, roedd baich achos y GCI yn cynnwys 15 achos ar ôl y llys a 19 datrysiad y tu allan i'r llys. Mae'r rhain wedi'u gwasgaru ledled Powys, sef y sir fwyaf yng Nghymru, gydag arwynebedd tir o dros 2,000 milltir sgwâr, gyda llawer ohono'n wledig iawn, a thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ymyriadau'n cael eu cwblhau ar sail unigol. Er bod staff wedi cael eu hyfforddi'n ddiweddar i gael mynediad at hyb ymyriadau ar-lein i gael syniadau ac adnoddau ar gyfer gweithio gyda phlant, mae rhai'n meddwl nad ydynt yn gallu mynd i mewn i'w swyddfeydd i gael gafael ar eu hadnoddau eu hunain. Er bod mynediad cyfyngedig yn cael ei ganiatáu, canllawiau Llywodraeth Cymru yw bod staff yn parhau i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl.

Nid oes gwasanaethau penodol wedi'u nodi ar gyfer y rhai ag anghenion amrywiol. Mae staff yn defnyddio eu menter eu hunain i deilwra eu gwaith neu i ddod o hyd i adnoddau priodol. Nid oes polisi na chanllawiau ymarfer ar weithio gydag amrywiaeth. Fe'n sicrhawyd y gellid darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond heb drywydd archwilio ar gyfer hyn ni allem fod yn siŵr bod hyn yn cael ei gynnig na'i ddarparu'n gyson.

Dywedodd pob un o'r staff a arolygwyd fod ganddynt bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser fynediad digonol at y gwasanaethau, yr ymyriadau a'r adnoddau partneriaeth sydd eu hangen arnynt i weithio gyda phlant.

Mae nyrs CAMHS brofiadol yn darparu ystod lawn o wasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl. Mae mynediad da at wasanaethau cyffuriau ac alcohol i'r 67 y cant o blant ar y llwyth achosion sydd ag angen o'r fath, gyda dau weithiwr o CAIS fel arfer wedi'u cyd-leoli yn swyddfeydd y GCI. Yn ogystal â darparu amrywiaeth o ymyriadau seicogymdeithasol, mae CAIS yn darparu mynediad at wasanaeth Kaleidoscope, sy'n darparu presgripsiynau amgen i unrhyw blentyn sy'n defnyddio cyffuriau dosbarth A. Mae CAIS hefyd yn darparu gwasanaeth mentora ar gyfer plant y GCI.

Ar hyn o bryd nid oes therapydd lleferydd ac iaith yn y GCI. Cafodd y staff sesiwn codi ymwybyddiaeth yn ddiweddar, ac mae ystyriaeth drylwyr yn cael ei rhoi i ddatblygu llwybr atgyfeirio.

Caiff camau gwneud iawn eu goruchwylio ar sail un-i-un gan holl aelodau'r tîm atal a chyfiawnder adferol. Mae prosiectau gyda Chlwb Pêl-droed y Drenewydd, ac amrywiaeth o brosiectau awyr agored, gan gynnwys casglu sbwriel. Byddai'r portffolio o brosiectau'n cael ei gryfhau drwy gyfuno arbenigedd ymhlith llai o staff a nodi prosiectau sy'n briodol ar gyfer plant ag anghenion a galluoedd gwahanol.

Cytunwyd ar fframwaith sicrhau ansawdd newydd ym mis Mehefin 2021 sy'n canolbwyntio ar adolygu achosion, adroddiadau, asesiadau ac atgyfeiriadau. Nododd archwiliad o'r llwyth achosion cyfan, a gynhaliwyd gan ymgynghorydd allanol dros yr haf 2021, nifer o feysydd i roi sylw iddynt, sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun gweithredu blaenoriaeth.

### A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel?

Mae'r ddau achos a arolygwyd, a'r archwiliad ansawdd allanol diweddar a gomisiynwyd gan y GCI, yn dangos bod rhai elfennau o weithio mewn partneriaeth yn gryf. Cwblhawyd cytundebau lefel gwasanaeth yn ddiweddar gyda Heddlu Dyfed-Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (ar gyfer CAMHS) a CAIS (ar gyfer gwasanaethau cyffuriau ac alcohol).

Mae Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda thimau ardal y gwasanaethau plant, sy'n nodi cydgyfrifoldebau, wedi cael ei ddiweddaru eleni. Mae bron i hanner (48 y cant) o achosion y GCI yn agored i wasanaethau plant. Er bod y berthynas yn dda, nid yw'r gwasanaethau

plant wedi'u cynnwys yn nhrefniadau'r ganolfan na'r panel ailsefydlu. Plant sy'n Derbyn Gofal ydy 20 y cant o achosion, ac mae hanner y rheiny'n cael eu rhoi mewn cyfleusterau preswyl ym Mhowys gan awdurdodau lleol eraill. Cydnabyddir bod angen gwneud mwy i leihau troseddu ymysg Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mhowys, gan gynnwys hyfforddi staff preswyl mewn arferion adferol. Mae rheolwyr y GCI yn chwarae rhan lawn mewn trefniadau diogelu plant a chamfanteisio ar blant.

Nid oes gan y GCI swyddog addysg, ac mae hynny'n ofyniad statudol. O blith plant y GCI sy'n 16 oed neu'n iau, mae 71 y cant ohonynt mewn addysg brif ffrwd amser llawn. Yn ddiweddar, mae'r rheolwyr wedi bod yn gweithio gyda'r gwasanaethau addysg i ddatblygu llwybrau atgyfeirio; ac ym mis Tachwedd 2021 llofnodwyd Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Gyrfa Cymru i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a chysylltiadau â chyflogwyr. Nid yw'r trefniadau hyn wedi cael eu sefydlu eto.

Mae'r broses o drosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion yn dod o dan y Fframwaith Partneriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Cymru, a'r Egwyddorion a Chanllawiau Pontio Ieuenctid i Oedolion (Cymru). Yn unol â'r egwyddorion hyn, bydd y swyddog prawf newydd yn ymgymryd â rôl rheolwr troseddwyr pontio, ac yn dal achosion yn y GCI ac wrth iddynt symud i wasanaethau oedolion. Bydd yr holl blant hyn yn cael eu cynnwys yn y garfan rheoli troseddwyr integredig, a threfniadau MAPPA lle nodir hynny.

Cadarnhaodd cadeirydd mainc lleol:

> *"Mae holl staff y GCI yn ein hardal leol yn broffesiynol ac yn gefnogol iawn o'r fainc, ac yn darparu gwasanaeth o safon yn y llys ieuenctid". Mae'r trefniadau a'r cyfathrebu sy'n digwydd rhwng y GCI a'r llys ieuenctid yn effeithiol. Mae ynad yn aelod o fwrdd partneriaeth y GCI."*

**Cynnwys plant a'u rheini neu ofalwyr**

Cysylltodd y GCI â'r plant ag achosion agored adeg yr arolygiad er mwyn cael caniatâd ganddynt i gymryd rhan mewn arolwg testun. Anfonwyd yr arolwg testun at y chwe phlentyn a oedd wedi rhoi caniatâd, ac atebodd pedwar o'r plant hynny.

Gofynnwyd i'r plant roi sgôr i wasanaeth y GCI ar raddfa o un i 10. Roedd un wedi rhoi sgôr o 10, dau wedi rhoi sgôr o naw, ac un wedi rhoi sgôr o wyth.

Roeddent wedi cynnig y sylwadau canlynol:

> *"Mae'r gwasanaeth yn wych gan fod y gweithwyr yn frwdfrydig ac yn ofalgar. Mae'r holl waith sy'n cael ei wneud wedi'i deilwra i gyd-fynd â'ch trosedd".*

> *"Mae fy ngweithiwr cyfiawnder ieuenctid wedi fy helpu i'n fawr ac wedi helpu i wella safon fy mywyd a'm lles meddwl. Mae wedi bod yn wych i mi – mae wedi gwella fy mywyd a hyd yn oed wedi ennyn fy niddordeb mewn bocsio".*

> *"Mae'r GCI wedi fy helpu i weld beth wnes i o'i le ac i newid fy hun er gwell".*

Gofynnwyd i'r plant hefyd roi sgôr i'r GCI, ar raddfa o un i 10, i ddangos i ba raddau y cawsant gymorth i gadw allan o drwbl. Roedd dau o blant wedi rhoi sgôr o 10, a dau wedi rhoi sgôr o saith. Gofynnwyd iddynt hefyd ddweud sut. Dywedodd y plant mwyaf cadarnhaol:

> *"Drwy ddangos i mi na fydd troseddu'n gwneud lles i mi mewn bywyd".*

*"Oherwydd cyfiawnder ieuenctid, yn enwedig fy ngweithiwr cyfiawnder ieuenctid, maen nhw wedi cadw golwg, rydyn ni wedi cwblhau sesiynau, ac maen nhw wedi fy helpu i ddianc o'r sefyllfa a oedd yn gwneud i mi droseddu".*

Dywedodd y lleill:

*"Oherwydd eu bod nhw'n dangos y llwybr iawn i mi".*

*"Doeddwn i ddim yn teimlo mod i angen y gorchymyn atgyfeirio am mai un penderfyniad gwael oedd fy nhrosedd, ond ar ôl mynd drwy rywfaint o'r gwaith rwy'n sylweddoli y gall fod yn ddefnyddiol i unrhyw unigolyn ifanc".*

Gofynnodd yr arolygwyr hefyd am ganiatâd gan y saith plentyn yr oedd eu hachosion yn cael eu harolygu i siarad â nhw am eu profiad gyda'r GCI. Rhoddodd tri ganiatâd ac roedd arolygydd yn gallu siarad â dau ohonynt dros y ffôn.

Dyma ddywedodd y plentyn cyntaf:

*"Dwi'n meddwl eu bod nhw'n ceisio gwneud yn siŵr ein bod ni'n iawn, ac nad ydyn ni'n mynd i drwbl eto. [Mae gan weithiwr y GCI y sgiliau iawn] am ei bod hi'n hawdd siarad â hi ac mae hynny'n beth da. Mae ganddi ddiddordeb yn yr hyn rwyf wedi bod yn ei wneud, ac mae hi'n gwrando'n iawn arna i pan fydda i'n siarad. Dydw i ddim yn un sy'n mynd i drwbl, damwain oedd hi. Ond gwelsom fideo mewn sioe deithiol a oedd yn dangos gwahanol ddamweiniau a pha mor beryglus yw'r ffyrdd, ac mae'n gwneud i chi feddwl. Gwnaeth [hi] unrhyw beth y dywedodd y byddai'n ei wneud, ac roeddwn i'n hoffi hynny; ac roedd ganddi ddiddordeb ynof i".*

Dyma ddywedodd yr ail blentyn:

*"Mae gen i gymaint o weithwyr, fel na alla i gofio pob un ohonyn nhw. Ond mae'r rhai dwi'n eu cofio wedi bod yn barod iawn i helpu. Roedd angen i mi roi trefn ar fy hun ac fe wnaethon nhw fy helpu i ddechrau delio â'm problemau. Maen nhw fel arfer dod i'm cartref. Rydw i'n teimlo'n fwy cyfforddus yno. Mae'r bobl sydd wedi helpu wedi siarad efo fi am reoli fy nhymer. Maen nhw'n help mawr, ac yn fy ngwthio i weld da mewn pobl. Maen nhw'n gefnogol iawn ac allwn i ddim meddwl am neb gwell. Fyddwn i ddim yn newid unrhyw beth, heblaw efallai am gael gweld meddyg i gael diagnosis go iawn o'r hyn sy'n digwydd i mi".*

| **1.4. Gwybodaeth a chyfleusterau** | |
|---|---|
| Mae gwybodaeth brydlon a pherthnasol ar gael, a chyfleusterau priodol yn eu lle i gefnogi dull gweithredu ymatebol, personol o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn. | Da |

Wrth wneud penderfyniad am wybodaeth a chyfleusterau, rydym yn ystyried yr atebion i'r pedwar cwestiwn canlynol:

**A yw'r polisïau a'r canllawiau sydd ar waith yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pob plentyn?**

Mae'r GCI wedi gwneud cryn dipyn o waith eleni i adolygu a diweddaru ei ganllawiau ymarfer, sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o'r agweddau ymarfer. Fodd bynnag, nid oes polisi na

chanllawiau ymarfer ar waith gan y GCI ar fynd i'r afael ag amrywiaeth ac anghymesuredd, ac mae hynny'n fwlch sylweddol. Mae'r canllawiau ymarfer ar gael ar safle SharePoint y GCI. Cynhaliwyd digwyddiad tîm ym mis Tachwedd 2021 ar gyfer staff er mwyn nodi'r prif newidiadau sy'n cael sylw yn y polisïau hyn. Mae mwy o waith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod yr holl ganllawiau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

O blith y staff a holwyd, dywedodd pawb ond un eu bod bob amser yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau gan bartneriaid a darparwyr. Fodd bynnag, mae hyn yn fwy anodd i staff newydd, sy'n dal i weithio gartref a ddim yn gweithio'n gorfforol ochr yn ochr â chydweithwyr yn y GCI ac asiantaethau partner, ac felly maent yn colli cyfleoedd anffurfiol i ddysgu gwybodaeth o'r fath.

Bwriedir adolygu'r holl bolisïau a chanllawiau bob tair blynedd. Nid yw'r rhan fwyaf o bolisïau, gan gynnwys y rhai a adolygwyd yn ddiweddar, yn ystyried amrywiaeth a chydraddoldeb yn ddigonol. Nid yw anghymesuredd yn cael ei grybwyll yn aml.

**A yw amgylchedd(au) cyflawni'r timau troseddau ieuenctid yn diwallu anghenion pob plentyn ac yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel?**

O ystyried yr ardal wledig helaeth ym Mhowys, mae'n anochel y bydd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau'n cael ei ddarparu'n lleol, y tu allan i'r swyddfa, gartref, mewn ysgolion neu mewn lleoliadau cymunedol eraill. Mae swyddfeydd y GCI yn y Drenewydd ac Aberhonddu, ac mae swyddfeydd Cyngor Sir Powys yn Llandrindod. Mae swyddfeydd y GCI wedi bod ar gau i blant y gwasanaeth ers dechrau pandemig Covid-19. Fodd bynnag, yn sgil y ffaith nad yw'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn y swyddfa, nid yw hyn wedi tarfu cymaint ag y gallai mewn ardal drefol.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud wyneb yn wyneb, gyda rhai apwyntiadau'n cael eu cynnal dros y ffôn neu drwy alwad fideo. Gwelodd yr arolygwyr dystiolaeth o adnodd DVD yn cael ei ddefnyddio gan blant i fynd i'r afael â gyrru gwael a defnyddio ffyrdd yn ddiogel.

Mae cynllun gweithredu blaenoriaeth y GCI yn cynnwys dod o hyd i leoliadau cymunedol ar gyfer paneli gorchmynion atgyfeirio. Mae'r rhain wedi bod yn cael eu cynnal gyda'r plant a'r rhieni ar-lein neu dros y ffôn ers dechrau'r pandemig, ond bwriadwyd iddynt ailddechrau cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn fuan ar ôl yr arolygiad. Cynhelir gweithgareddau gwneud iawn mewn lleoliadau ledled Powys. Er bod yr asesiadau risg yn cael eu cwblhau, maent yn cael eu llunio gan bob un o'r gweithwyr atal a chyfiawnder adferol heb wybodaeth na mewnbwn arbenigol.

**A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn galluogi staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion pob plentyn?**

Mae staff y GCI yn defnyddio'r system ChildView i gofnodi achosion ac mae ganddynt fynediad darllen-yn-unig i'r system gwasanaethau plant. Mae ganddynt liniaduron a ffonau symudol i weithio gartref.

Yn ddiweddar, gwnaethant symud o ddefnyddio Skype ar gyfer cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd eraill, ac erbyn hyn maent yn defnyddio llwyfan Microsoft Teams ac mae'r staff yn dweud ei fod yn welliant sylweddol. Mae'r cymorth TGCh, fel y gwelodd y tîm o arolygwyr a oedd yn gweithio o bell, yn effeithiol. O'r staff a ymatebodd i'r arolwg, dywedodd pedwar ohonynt fod technoleg gwybodaeth yn eu helpu i ddarparu gwasanaeth o safon yn 'dda iawn', a dywedodd y tri arall ei fod yn eu galluogi i wneud hynny yn 'eithaf da'.

Mae’r GCI yn defnyddio Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru i ddatblygu protocol rhannu gwybodaeth cynhwysfawr rhwng partneriaid y Gwasanaeth a’r asiantaethau cyhoeddus eraill maent yn gweithio gyda hwy. Ymddengys bod y prosesau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn weddol effeithiol.

Gall y systemau gwybodaeth gynhyrchu gwybodaeth am berfformiad yn erbyn targedau, ar yr amod bod digon o staff medrus ar gael i gynhyrchu adroddiadau’n brydlon.

**A yw’r dadansoddi, y dystiolaeth a’r dysgu’n cael eu defnyddio’n effeithiol i sbarduno gwelliant?**

Ym mis Gorffennaf 2021, comisiynodd y GCI broses sicrhau ansawdd gynhwysfawr a gafodd ei harchwilio’n allanol o’i holl achosion cyfredol yn erbyn safonau cyfiawnder ieuenctid Arolygiaeth Prawf EM. Mae canlyniadau’r ymarfer hwn yn cyd-fynd yn weddol agos â chanfyddiadau’r arolygiad hwn ac maent eisoes wedi cael eu defnyddio i hybu gweithgarwch gwella sydd wedi’i gynnwys yng nghynllun gweithredu blaenoriaeth y GCI. Rhoddwyd sylw arbennig i gwblhau asesiadau AssetPlus a gwella cynllunio. Roedd yr archwiliad hwn hefyd yn sbardun ar gyfer gwneud swydd y cydlynydd dulliau adferol yn un amser llawn, er mwyn cynyddu’r defnydd o ystod ehangach o opsiynau cyfiawnder adferol.

Mae llawer iawn o weithgarwch gwella wedi bod yn digwydd ers i’r uwch reolwr interim ddechrau yn ei swydd ym mis Gorffennaf 2021, gyda chynllun gweithredu blaenoriaeth clir sy’n cael ei adolygu gan y tîm rheoli bob pythefnos ac mae’n dangos tystiolaeth o gynnydd cyflym yn erbyn yr amcanion allweddol. Ar hyn o bryd, mae'r cyfarfodydd rheoli perfformiad wythnosol yn canolbwyntio ar wella canlyniadau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

Mae gwybodaeth ynghylch y nifer isel o blant y GCI yr aseswyd bod ganddynt anabledd yn cael ei defnyddio i sicrhau bod y ffactor allweddol hwn yn cael ei asesu’n well. Yn yr un modd, mae cyfran uchel y plant sy’n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yn dechrau sbarduno cynlluniau i leihau troseddu ymysg plant mewn gofal.

Yn ddiweddar, mae’r bwrdd rheoli wedi cymeradwyo strategaeth gyfranogi. Mae’n ddyddiau cynnar o ran ei rhoi ar waith. Gofynnwyd am farn y plant er mwyn helpu i ddatblygu gweledigaeth y GCI. Gwahoddwyd plant a’u rhieni neu ofalwyr i gyfrannu ar ddechrau’r cyfarfodydd rheoli risg, ac mae’r ‘Ein Cynllun’ newydd yn cael ei roi ar waith i wella cyfraniad plant at gynllunio achosion. Bydd y rheolwr gwasanaeth yn arwain ar y datblygiadau hyn fel blaenoriaeth.

## Amrywiaeth

Drwy gydol ein safonau, rydym yn disgwyl dull gweithredu personol ac ymatebol ar gyfer pob plentyn, sy’n cynnwys ystyried eu hamrywiaeth a’u nodweddion gwarchodedig. Gall y ffactorau hynny ddylanwadu ar ein barn mewn safonau penodol. Yma, rydym yn cyflwyno crynodeb cyffredinol o’r agwedd tuag at amrywiaeth a welsom yn y tîm troseddau ieuenctid hwn.

Mae’n ymddangos bod y bwrdd rheoli’n awyddus i ymateb i anghenion amrywiol y plant sy’n cael eu goruchwylio gan y GCI, ond nid ydynt eto wedi paratoi strategaeth a chynllun cydraddoldeb i fynd i’r afael ag amrywiaeth ac anghymesuredd. Mae’n cydnabod bod Plant sy’n Derbyn Gofal yn cyfrif am 20 y cant o’r llwyth achosion a’u bod yn cael eu cynrychioli’n anghymesur yn y gwasanaeth. Mae’n chwilio am ffyrdd o leihau troseddau ymysg y plant hyn. Yn 2020/2021, nodwyd bod gan ddim ond pedwar o blant y GCI

anabledd. Mae’r bwrdd yn pryderu mai’r rheswm am y niferoedd isel o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yw nad yw’r anghenion hyn wedi cael eu hasesu’n ffurfiol, ac mae angen ymchwilio ymhellach i hyn.

O’r 17 o staff a gyflogir gan y GCI, daw dau (12 y cant) o leiafrifoedd ethnig, ac mae un ohonynt mewn swydd arweiniol. Mae hyn yn cymharu’n ffafriol â phoblogaeth Powys, sy'n 98 y cant yn wyn. Mae saith deg y cant o’r gweithlu yn fenywod, gan gynnwys pob un o’r naw rheolwr achos a saith o’r wyth gwirfoddolwr. Mae’r GCI yn cydnabod bod angen recriwtio mwy o reolwyr achos a gwirfoddolwyr gwrywaidd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y plant hynny a fyddai’n elwa ar gael model rôl gwrywaidd.

Er bod nifer y plant lleiafrifoedd ethnig yn y GCI yn isel (tri), maent yn cyfrif am saith y cant o’r llwyth achosion, sy’n anghymesur o’i gymharu â nifer y plant rhwng 10–17 oed yn y boblogaeth ym Mhowys. Mae ethnigrwydd saith y cant o blant ar goll o’r data diweddaraf. Hefyd, mae nifer amhenodol o blant â threftadaeth Sipsiwn, Roma neu Deithwyr. Ar hyn o bryd mae canran y genethod yn y llwyth achosion (saith y cant) yn llai na hanner y 15 y cant ar gyfer Cymru a Lloegr gyda’i gilydd. Mae nifer y genethod a phlant lleiafrifoedd ethnig yn isel ac mae’r GCI yn delio â phob plentyn fel unigolyn. Nid oes adnoddau penodol wedi’u dylunio i fynd i’r afael â’u hanghenion. Mae risg, felly, y bydd anghenion penodol genethod a phlant lleiafrifoedd ethnig yn cael eu hesgeuluso oherwydd y niferoedd isel hyn. Awgrymir bod y GCI yn datblygu canllawiau ymarfer a chyfeiriaduron adnoddau ar gyfer gweithio gyda’r grwpiau hyn o blant, i wrthbwyso'r effaith bosibl ac effeithiau ymyleiddio.

Nid yw’r GCI yn casglu data am grefydd neu gred plant, na’u rhywioldeb na’u ffafriaeth am wasanaeth cyfrwng Cymraeg, sy’n codi’r posibilrwydd nad yw rhai anghenion yn cael eu diwallu. Fe’n sicrhawyd y gellid darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae hyn angen system ar gyfer monitro’r angen a’r defnydd. O’r achosion a arolygwyd, roeddem o’r farn bod yr asesiad yn mynd i’r afael yn ddigonol â materion amrywiaeth mewn pump o’r saith achos. Roedd cynllunio’n rhoi digon o sylw i amrywiaeth mewn chwech o’r saith achos, tra bod y gwasanaethau a ddarperir yn rhoi sylw i amrywiaeth y plentyn ym mhob achos.

## 2. Datrysiadau yn y llys

Gwnaethom edrych yn fanwl ar ddwy ddedfryd gymunedol a reolir gan y GCI. Rydym hefyd wedi cynnal un cyfweliad gyda'r rheolwyr achos perthnasol. Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; gweithredu a darparu gwasanaethau; ac adolygu. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, gan gadw'r plentyn yn ddiogel a chadw pobl eraill yn ddiogel.

Sgôr 'Annigonol' a gafodd asesu; er bod yr asesiad ar gyfer ymataliad yn ddigonol yn y ddau achos, nid oedd yr asesiad ar gyfer diogelwch a lles yn ddigonol yn yr un achos, a dim ond un oedd yn ddigonol o ran yr asesiad o gadw pobl eraill yn ddiogel.

Rhoddwyd sgôr 'Angen gwella' ar gyfer cynllunio. Er bod cynllunio i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cyrraedd safon ddigonol, nid oedd cynllunio i gefnogi ymataliad a chadw eraill yn ddiogel ond yn ddigonol mewn un o'r ddau achos.

Rhoddwyd sgôr 'Da' i'r gwaith o weithredu a chyflawni. Roedd yn ddigonol o ran darparu gwasanaethau i gefnogi ymataliad a diogelwch eraill, a hefyd, mewn un o'r ddau achos, i gadw'r plentyn yn ddiogel. Defnyddiwyd disgresiwn proffesiynol i godi'r sgôr o 'Angen gwella', gan fod 'Da' yn disgrifio'r hyn a welsom yn gyffredinol yn well o ran gweithredu a darparu ar draws y GCI.

Roedd cryfder gwirioneddol yn y ffordd yr oedd rheolwyr achos yn ymgysylltu â'r plant ac yn gweithio gyda nhw i ddarparu ymyriadau effeithiol, sy'n gwneud iawn am rai o'r diffygion cynharach. Er nad oedd newidiadau yn y ffactorau sy'n ymwneud â diogelwch a lles, na pherygl o niwed i eraill sy'n golygu bod angen adolygiad ffurfiol, cafodd yr achosion hyn eu hadolygu'n effeithiol, gyda'r plant a'u rhieni neu ofalwyr yn ymwneud yn llawn â'r broses, a'r cynlluniau'n cael eu haddasu lle bo hynny'n briodol.

**Cryfderau:**

- Roedd plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu cynnwys yn ystyrlon wrth asesu, cynllunio ac adolygu.
- Roedd asesiadau a chynlluniau yn rhoi ystyriaeth i allu, aeddfedrwydd a chymhelliant plant.
- Ymgysylltwyd yn effeithiol â phlant, ac arweiniodd hynny at lefel cydymffurfio uchel ag ymyriadau.

**Meysydd i'w gwella:**

- Nid oedd dosbarthiad diogelwch a lles, a'r risg i eraill, yn cael eu hasesu ddigon.
- Roedd cynllunio annigonol i fynd i'r afael â hapddigwyddiadau mewn cynlluniau i fynd i'r afael â risg i eraill.

Bydd y gwaith gyda phlant sy'n cael eu dedfrydu gan y llysoedd yn fwy effeithiol os caiff ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

| 2.1. Asesiad | |
|---|---|
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Annigonol |

Mae ein sgôr[14] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | 100% |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **0%** |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 50% |

### A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?

Yn y ddau achos a arolygwyd, roeddem yn teimlo bod digon o waith asesu a dadansoddi o ran sut i gefnogi ymataliad y plentyn. Roedd yr asesiadau yn defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan asiantaethau eraill. Roeddent yn ystyried cyd-destun cymdeithasol a theuluol y plentyn, a'u haeddfedrwydd a'u cymhelliant i newid, ac yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn. Roedd y plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn eu hasesiadau, a chafodd eu barn ei hystyried. Mewn un achos, fodd bynnag, nid oedd dadansoddiad digonol o amrywiaeth y plentyn, ac mewn achos arall ni roddwyd digon o sylw i gyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol.

### A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?

Yn y ddau achos, roedd yr arolygwyr o'r farn nad oedd y dadansoddiad o sut i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddigonol. Mewn un achos, ni ystyriwyd effaith trawma cynharach ar les y plentyn a chafodd y dosbarthiad o ddiogelwch a lles ei asesu gan y rheolwr achos fel isel yn hytrach na chanolig, ac yn y llall ni roddwyd digon o sylw i ymddygiad cymryd risg y plentyn. Nid oedd dadansoddiad digonol o'r rheolaethau a'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn yn y ddau achos.

### A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?

Mewn un o'r achosion, roedd yr arolygydd o'r farn bod yr asesiad yn dadansoddi sut i gadw pobl eraill yn ddiogel. Yn y llall, roedd yr arolygydd yn teimlo nad oedd dosbarthiad y rheolwr achos o risg yn rhesymol ac y dylai fod yn ganolig yn hytrach nag isel, o ystyried yr effaith gorfforol a seicolegol ar y dioddefwr. Nid oedd yr asesiad yn y naill achos na'r llall yn gwneud defnydd digonol o'r ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael am ymddygiad yn y gorffennol. Fodd bynnag, yn y ddau achos roedd y dadansoddiad o'r rheolaethau a'r ymyriadau i reoli a lleihau i'r eithaf y risg o niwed a ddangoswyd gan y plant yn ddigonol.

[14] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

| **2.2. Cynllunio** | |
|---|---|
| Mae’r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn holistaidd ac yn bersonol, ac mae’n cynnwys yn weithredol y plentyn a’i rieni neu ofalwyr. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[15] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy’ |
|---|---|
| A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn? | **50%** |
| A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw’r plentyn yn ddiogel? | 100% |
| A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **50%** |

**A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?**

Mewn un achos, roedd cynllunio priodol i gefnogi ymataliad y plentyn. Yn y llall, nid oedd cynllun i fonitro defnydd y plentyn o ganabis nac i gefnogi ei nodau clir o ran cyflogaeth yn y dyfodol. Yn y ddau achos, roedd y gwaith cynllunio’n rhoi sylw i amrywiaeth y plentyn, ei aeddfedrwydd a’i gymhelliant i newid, ac roedd yr ymyriadau arfaethedig yn gymesur â chanlyniad y llys ac roedd modd eu cyflawni yn yr amser a oedd ar gael. Mewn un achos, nid oedd y gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau’r dioddefwr, o ystyried y ffaith y gallai ei farn newid dros amser ynghylch cymryd rhan mewn canlyniad cyfiawnder adferol.

**A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw’r plentyn yn ddiogel?**

Roedd y gwaith cynllunio i gadw’r plentyn yn ddiogel yn ddigonol yn y ddau achos. Mewn un achos, roedd cynlluniau i helpu'r plentyn i ddatblygu strategaethau i reoli ei emosiynau dwysach, a fyddai, gyda lwc, yn arwain at ostyngiad yn ei ddefnydd o ganabis. Yn y llall, roedd cynlluniau i fynd i’r afael â gyrru anghyfreithlon a thrwy hynny gadw’r plentyn yn ddiogel. Er bod y gwaith cynllunio gyda’r ddau blentyn yn nodi’r mesurau rheoli a’r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo eu diogelwch a’u lles, ni roddwyd digon o sylw i wneud trefniadau wrth gefn effeithiol i reoli unrhyw gynnydd yn y risgiau a nodwyd.

**A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Mewn un achos, ystyriwyd bod y cynlluniau i fynd i’r afael â gyrru anghyfreithlon y plentyn a’i fonitro yn ddigonol er mwyn cadw pobl eraill yn ddiogel. Yn y llall, nid oedd cynllun clir gyda’r heddlu i fonitro gorchymyn atal y plentyn, ac ystyriwyd nad oedd yn ddigonol i

[15] Mae’r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o’r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

gadw'r dioddefwr yn ddiogel. Yn y ddau achos, methodd y gwaith cynllunio â nodi'r trefniant wrth gefn angenrheidiol petai'r risgiau a nodwyd yn cynyddu.

| **2.3. Gweithredu a darparu** | |
|---|---|
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Da |

Mae ein sgôr[16] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol? | 100% |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | **50%** |
| A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | 100% |

**A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?**

Roedd y ddau blentyn yn ymgysylltu'n dda, yn cydymffurfio â gofynion eu gorchmynion atgyfeirio ac yn cwblhau'r gwaith o wneud iawn heb fod angen cymryd camau gorfodi. Cefnogwyd un o'r plant i gyrraedd ei nod cyflogaeth, a chwblhaodd y llall lyfr gwaith cwrs ymwybyddiaeth gyrru ac fe'i cefnogwyd i gael mynediad at gludiant i'r coleg. Roedd y gwaith o ddarparu'r ymyriadau'n ystyried amrywiaeth y plant, ac yn adeiladu ar eu cryfderau ac yn gwella'r ffactorau amddiffynnol. Mewn un achos, gellid bod wedi gwneud mwy o waith i gysylltu'r plentyn â gwasanaethau yn y gymuned ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben.

**A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?**

Mewn un achos, roedd gwaith monitro ymddygiad y plentyn yn rhan annatod o'r oruchwyliaeth, ac roedd darparu cwrs ymwybyddiaeth gyrru'r Sioe Deithiol Effaith yn ddigon i fynd i'r afael â'r risgiau yn sgil gyrru'n anghyfreithlon. Fodd bynnag, yn yr achos arall, barnwyd bod y diffyg ymyriadau i fynd i'r afael â rheoli emosiynau'r plentyn yn annigonol.

**A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?**

Yn y ddau achos, barnwyd bod gweithredu a darparu gwasanaethau yn cynorthwyo diogelwch pobl eraill yn ddigonol, gan gynnwys dioddefwyr gwirioneddol a phosibl. Mewn un achos, barnwyd bod cyflawni'r gwaith effaith ar ddioddefwyr yn ddigonol i reoli unrhyw

[16] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

gyswllt annisgwyl gyda'r dioddefwr, yng ngoleuni'r gorchymyn atal sydd mewn grym. Yn y llall, roedd cwblhau cwrs gyrru ac ymwybyddiaeth o ddioddefwyr yn mynd i'r afael â'r risg o niwed i'r dioddefwr ac i bobl eraill.

## 2.4. Adolygu

| | |
|---|---|
| Mae adolygu cynnydd yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[17] ar gyfer adolygu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn? | **100%** |
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **100%** |
| A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | **100%** |

### A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?

Cwblhawyd adolygiadau ysgrifenedig ar gyfer y paneli gorchmynion atgyfeirio yn y ddau achos. Roedd y rhain yn adolygiadau manwl o gynnydd y plant o ran cefnogi eu hymataliad. Roedd y plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan lawn yn yr adolygiadau hyn a chafodd eu barn ei hystyried. Gyda'r un plentyn yr oedd angen gwneud rhagor o waith, cafodd hyn ei nodi'n glir.

### A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?

Er bod adolygiadau ysgrifenedig o ddiogelwch a lles y plentyn wedi'u cwblhau ym mhob achos, nid oedd newidiadau yn y ffactorau cysylltiedig ac felly nid oedd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r cynlluniau i gadw'r plant yn ddiogel.

### A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?

Nid oedd unrhyw newidiadau yn y ffactorau sy'n ymwneud â'r risg o niwed yn y naill achos a'r llall a fyddai'n golygu bod angen adolygu'r cynlluniau i gadw pobl eraill yn ddiogel. Roedd y plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu risg o niwed i eraill. Mewn un achos, ychwanegwyd cam ychwanegol i'r gweithiwr dioddefwyr gysylltu â theulu'r dioddefwr er mwyn ystyried mewn ffordd sensitif a fyddai rhyw fath o ymyriad cyfiawnder adferol o fudd i'r dioddefwr ifanc.

[17] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, ac a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

## 3. Datrysiadau y tu allan i'r llys

Roeddem wedi edrych ar bum achos a oedd yn cael eu rheoli gan y timau troseddau ieuenctid a oedd wedi cael eu datrys y tu allan i'r llys. Roedd y rhain yn cynnwys un rhybuddiad amodol ieuenctid, un rhybuddiad ieuenctid a thri datrysiad cymunedol. Gwnaethom gyfweld y rheolwyr achos mewn pum achos.

Roeddem wedi edrych ar ansawdd asesu; cynllunio; a gweithredu a darparu gwasanaethau. Archwiliwyd pob un o'r elfennau hyn mewn perthynas â'r gwaith a wnaed i fynd i'r afael ag ymataliad, gwaith i gadw'r plentyn yn ddiogel a gwaith i gadw pobl eraill yn ddiogel. Mae angen i ansawdd y gwaith a wneir gyda phob ffactor fod yn uwch na throthwy penodol ar gyfer pob agwedd o oruchwyliaeth er mwyn iddo gael ei ystyried yn foddhaol.

Rydym hefyd wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau.

Rhoddwyd sgôr 'Angen gwella' ar gyfer asesu, a hynny er bod asesu risg o niwed i bobl eraill yn ddigonol yn y mwyafrif helaeth o achosion, roedd dadansoddi sut i gefnogi ymataliad y plentyn a sut i gadw'r plentyn yn ddiogel yn ddiffygiol mewn gormod o achosion.

Roedd cynllunio hefyd wedi cael sgôr 'Angen gwella', oherwydd, yn yr un modd, er bod cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel yn ddigonol yn y mwyafrif helaeth o achosion, nid oedd y gwaith cynllunio i gefnogi ymataliad a chadw'r plentyn yn ddiogel yn bodloni'r safon mewn digon o achosion.

Pennwyd bod y gwaith o weithredu a chyflawni yn 'Rhagorol' gan fod y safon wedi'i chyrraedd yn erbyn pob cwestiwn allweddol yn y mwyafrif helaeth o achosion.

Roedd y prosesau asesu ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn gadarn. Fodd bynnag, roedd lle i wella o ran dadansoddi'r ffordd orau o gefnogi ymataliad plant, a nodi a phwyso a mesur pryderon am eu diogelwch a'u lles. Roedd bylchau mewn rhai o'r cynlluniau i gefnogi ymataliad ac i gadw plant yn ddiogel, ond nid o ran mynd i'r afael â'r risg i eraill. Roedd darparu ymyriadau priodol yn gryfder sylweddol, hyd yn oed ar adegau pan na chawsant eu hasesu'n wreiddiol fel rhai yr oedd eu hangen neu pan na chynlluniwyd ar eu cyfer.

Er bod rhai bylchau, roedd canllawiau ymarfer ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth o safon i bob plentyn. Roedd prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd wedi hen ennill eu plwyf, ac roedd y panel wedi'i ehangu i gynnwys disgyblaethau eraill. Ond roedd absenoldeb y gwasanaethau plant fel aelod craidd yn rhywbeth pwysig a hepgorwyd. Roedd plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cymryd rhan yn yr asesiadau cyn cyfarfod y panel, a oedd yn ceisio darparu ystod eang o ymyriadau, gan hyrwyddo amrywiaeth lle bo hynny'n bosibl.

Nid oedd y GCI yn gwerthuso polisi a darpariaeth y datrysiadau y tu allan i'r llys yn rheolaidd, nac yn rhoi digon o sylw i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth o fewn y polisi, ac nid oedd y gwaith gwerthuso a wnaeth yn cynnwys yr holl asiantaethau perthnasol. Cafwyd adolygiad yn ddiweddar, a oedd wedi ehangu'r aelodaeth ac wedi gwella'r ffordd mae'r panel yn gweithio. Roedd lle i gynnwys plant a'u rhieni neu ofalwyr yn amlach yn y gwaith o werthuso ac adolygu'r polisi a'r ddarpariaeth ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys. Roedd y cynllun yn llwyddiannus o ran lleihau nifer y rhai sy'n ymuno â'r system

cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf, ac roedd cyfraddau aildroseddu'r rhai y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud amdanynt y tu allan i'r llys yn isel.

| Cryfderau: |
| --- |
| • Roedd y gwasanaeth a ddarperir yn bersonol, ac yn ystyried amrywiaeth plant a'u sefyllfa deuluol a chymdeithasol.<br>• Ymgysylltwyd yn effeithiol â phlant, gan arwain at gyfraddau cydymffurfio uchel ag ymyriadau.<br>• Ymgysylltwyd yn effeithiol ag asiantaethau partner allweddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.<br>• Cafodd yr holl blant a'u rhieni neu ofalwyr eu gweld, a chynhaliwyd asesiad AssetPlus cyn penderfynu ar y datrysiad.<br>• Gwelwyd cynnydd da o ran lleihau nifer y rhai sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf. |

| Meysydd i'w gwella: |
| --- |
| • Roedd dosbarthiad diogelwch a lles yn rhy isel yn aml.<br>• Nid oedd adroddiad y plentyn ynghylch camddefnyddio sylweddau bob amser yn cael ei gynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu ymyriadau.<br>• Nid oedd cynllunio wrth gefn ar gyfer mynd i'r afael â ffactorau sy'n debygol o achosi mwy o berygl o niwed neu bryderon am ddiogelwch a lles.<br>• Roedd angen gwella dulliau gwerthuso'r cynllun datrysiadau y tu allan i'r llys. |

Bydd y gwaith gyda phlant y gwneir penderfyniadau amdanynt y tu allan i'r llys yn fwy effeithiol os caiff ei dargedu, ei gynllunio a'i weithredu'n dda. Yn ein harolygiadau, rydym yn edrych ar sampl o achosion. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn pedair safon.

| **3.1. Asesiad** | |
| --- | --- |
| Mae'r asesiad yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[18] ar gyfer asesu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

[18] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn? | **60%** |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel? | **60%** |
| A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel? | 80% |

**A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?**

Mewn pedwar o'r pum achos, roedd yr asesiadau'n rhoi digon o sylw i amrywiaeth ac amgylchiadau personol y plentyn, ac yn canolbwyntio ar gryfderau'r plentyn ac yn talu sylw i ddeall lefel aeddfedrwydd y plentyn, a'i allu a'i gymhelliant i newid. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, nid oedd y dadansoddiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill, nac yn rhoi digon o sylw i anghenion a dymuniadau'r dioddefwr nac yn rhoi digon o sylw i farn y plentyn a'i riant neu ofalwr, fel yn yr achos hwn:

| **Enghraifft o ymarfer gwael:** |
|---|
| Gwnaed penderfyniad am David y tu allan i'r llys am drosedd anhrefn ffyrnig a gyflawnwyd bron i 10 mis yn gynharach. Roedd yn amharod i drafod y trosedd, gan nodi'r amser a oedd wedi mynd heibio ac atgof cyfyngedig yn sgil y ffaith ei fod o dan ddylanwad alcohol. Mae'r wybodaeth gan yr heddlu'n gryno ac nid yw'n cynnwys llawer o fanylion am bwy arall oedd yn gysylltiedig â hyn, felly nid yw'n glir a oes dioddefwyr perthnasol. Mae gan David bedair trosedd arall ar ei gofnod. Ni chafodd yr ymddygiad ei drafod gydag ef i ddeall unrhyw batrymau neu ffactorau sy'n gysylltiedig â'r troseddu; ac ar wahân i ddatganiad sy'n nodi ei fod wedi cwblhau ei ymyriad GCI diwethaf yn llwyddiannus, nid oes asesiad go iawn o'i ymgysylltiad blaenorol. Er bod hunanasesiad wedi'i gwblhau gyda David, ni roddir llawer o sylw i'r ffaith ei fod wedi datgelu bod camddefnyddio sylweddau'n golygu ei fod yn mynd i helynt weithiau. |

**A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Roedd yr arolygwyr yn anghytuno â dosbarthiad y rheolwr achos o ddiogelwch a lles mewn pedwar o'r pum achos. Mewn tri achos, roeddent o'r farn y dylai wedi bod yn ganolig yn hytrach nag isel, ac mewn achos arall roeddent yn credu y dylai wedi bod yn uchel yn hytrach nag isel. Yn yr achos olaf, roeddent o'r farn nad oedd asesiad y rheolwr achos yn rhesymol. Ym mhob achos ond un, roeddent o'r farn nad oedd yr asesiad yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael nac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol. Mae'r canlynol yn enghraifft o hyn:

| **Enghraifft o ymarfer gwael:** |
|---|
| Mae John yn fachgen ifanc sydd wedi gweld ei fam yn cael ei cham-drin yn y cartref ers blynyddoedd. Mae wedi cael ei wahardd o'r ysgol sawl gwaith yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Adeg yr asesiad, mae gan ei deulu weithiwr cymdeithasol i gefnogi ei fam, sy'n ei chael yn anodd magu John a'i frawd. Gwyddys hefyd ei fod yn aros i fyny'n hwyr yn |

chwarae gemau fideo i oedolion. Nid oes yr un o'r ffactorau hyn yn cael eu cysylltu â'r asesiad o'i ddiogelwch a'i les, sy'n cael ei ystyried yn isel.

**A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Fodd bynnag, teimlai'r arolygwyr fod dosbarthiad y rheolwr achos o'r risg o niwed difrifol yn gywir ym mhob achos ond un, lle'r oeddent o'r farn y dylai wedi bod yn ganolig yn hytrach nag isel. Roedd yr asesiadau o niwed yn defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth a oedd ar gael yn ddigonol mewn tri o'r pum achos ac yn nodi ac yn dadansoddi'r risg mewn hanner yr achosion lle'r oedd ffactorau risg. Ystyriwyd bod y canlynol yn asesiad da o'r risg o niwed:

**Enghraifft o ymarfer da:**

Mae'r asesiad yn diffinio niwed difrifol ac yn cydnabod, er bod Ieuan wedi achosi niwed corfforol, nad yw'n bodloni'r diffiniad o niwed difrifol. Mae'n dosbarthu risg Ieuan o niwed difrifol yn isel; ac yn dadansoddi'r sbardunau, natur a chyd-destun tebygol unrhyw ymddygiad niweidiol yn y dyfodol.

### 3.2. Cynllunio

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cynllunio yn seiliedig ar wybodaeth, yn ddadansoddol ac yn bersonol, ac mae'n cynnwys yn weithredol y plentyn a'i rieni neu ofalwyr. | Angen gwella |

Mae ein sgôr[19] ar gyfer cynllunio yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn? | **60**% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel? | **60**% |
| A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel? | 80% |

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?**

Mewn tri achos, roedd bylchau yn yr hyn a oedd wedi'i gynllunio i gefnogi ymataliad. Mewn un achos, nid oedd unrhyw gynlluniau i fynd i'r afael â'r lefel uchel o waharddiadau o'r ysgol a brofodd y plentyn. Roedd bylchau hefyd o ran mynd i'r afael â'r defnydd o gyffuriau ac alcohol mewn rhai achosion, ac nid oedd barn y plentyn bob amser yn cael ei hystyried yn llawn, fel yn yr enghraifft hon:

**Enghraifft o ymarfer gwael:**

Nid yw'r gwaith cynllunio'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r camddefnyddio sylweddau a nodwyd gan Megan a'r asesydd fel rhywbeth sy'n peri problem, er bod Megan yn ei

[19] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

hunanasesiad wedi dweud ei bod yn dymuno cael cymorth i ddelio â hyn. Er bod y cynllun wedi'i rannu â Megan (a'i theulu), nid yw'r gwaith cynllunio'n cefnogi ei hymataliad yn ddigonol am nad yw ei barn yn cael ei hystyried.

Ym mhob achos, gellid cwblhau'r ymyriadau a gynlluniwyd o fewn yr amser sydd ar gael. Mewn pedwar o'r pum achos, roedd y gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i amrywiaeth y plentyn a'r cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl i'r datrysiadau y tu allan i'r llys ddod i ben.

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?**

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd cynllunio i gadw plant yn ddiogel yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys gwasanaethau plant a'r nyrs CAMHS ar secondiad, ac roedd cysondeb da â'r gwaith sydd wedi'i gynllunio gyda'r plant. Cafodd yr arolygwyr weld enghreifftiau o waith a oedd wedi'i gynllunio i hyrwyddo diogelwch ar-lein, ymyriadau ar gyfer hunan-reoleiddio emosiynol a hwyliau isel, a gwaith i fynd i'r afael â phrofiadau trawmatig a hanes o hunan-niweidio. Fodd bynnag, roedd rhai bylchau yn y gwasanaethau a gynlluniwyd i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn mewn dau o'r pum achos – er enghraifft, ymyriadau i fynd i'r afael â thrawma a chamddefnyddio alcohol. Dim ond mewn tri o'r pum achos perthnasol yr oedd y cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn ddigonol.

**A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?**

Yn sgil y ffaith bod y rhan fwyaf o'r achosion wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n peri risg isel o achosi niwed difrifol i bobl eraill, dim ond mewn dau o'r pum achos yr oedd angen cynllunio i gadw pobl eraill yn ddiogel, ac roedd dioddefwyr gwirioneddol neu bosibl o ymddygiad troseddol y plentyn mewn dim ond tri o'r pum achos. Gwelwyd enghreifftiau cadarnhaol o ymyriadau wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â throseddau gyda chyllyll, lleihau ymddygiad byrbwyll a datblygu empathi â dioddefwyr. Yn yr un achos lle barnwyd bod y gwaith cynllunio'n annigonol, roedd hyn oherwydd methiant i gynllunio i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio alcohol y plentyn. Mewn un o'r ddau achos lle'r oedd angen cynllunio i fynd i'r afael â risg i bobl eraill, nid oedd cynlluniau i fynd i'r afael â hapddigwyddiadau pe bai'r risg yn gwaethygu.

| **3.3. Gweithredu a darparu** | ☆ |
| --- | --- |
| Mae gwasanaethau cydlynol, personol ac o ansawdd uchel a gyda ffocws da yn cael eu darparu, gan ymgysylltu â'r plentyn a'i helpu. | Rhagorol |

Mae ein sgôr[20] ar gyfer gweithredu a darparu yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol canlynol:

[20] Mae'r sgôr ar gyfer y safon yn cael ei gyrru gan y sgôr isaf ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol, a roddwyd mewn band sgorio, a nodir mewn print trwm yn y tabl. Edrychwch ar Atodiad 2 i gael eglurhad manylach.

| | % 'ydy' |
|---|---|
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol? | 100% |
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol? | **80**% |
| A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol? | 100% |

**A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?**

Ym marn yr arolygwyr roedd enghreifftiau cadarnhaol o wasanaethau digonol yn cael eu darparu i gefnogi ymataliad y plant rhag troseddu ym mhob achos. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn ystyried amrywiaeth y plentyn a'i gyd-destun teuluol a chymdeithasol. Arweiniodd ymgysylltiad cadarnhaol y rheolwyr achos at lefelau uchel o gydymffurfiaeth ymysg y plant a gafodd gynnig ymyriadau. Mewn dau o'r achosion, roedd oedi cyn dechrau'r ymyriadau oherwydd salwch staff. Serch hynny, cymerwyd gofal i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol ac i gysylltu â gwasanaethau prif ffrwd ar ddiwedd yr ymyriadau, fel yn yr enghraifft hon:

| **Enghraifft o ymarfer da:** |
|---|
| Cafodd Megan ddatrysiad cymunedol am drosedd ymosodiad cyffredin ar gyd-ddisgybl ysgol. Yn ogystal â meithrin perthynas, cyflwynir sesiynau i fynd i'r afael â hunan-reoleiddio emosiynol, ystyried canlyniadau, gwneud penderfyniadau a pherthnasoedd iach. Mae cyswllt yn cael ei wneud a'i gynnal gyda'r asiantaethau partner perthnasol, gan gynnwys CAIS (camddefnyddio sylweddau), Gyrfa Cymru a gweithiwr CAMHS y GCI. Mae'r rheolwr achos hefyd wedi meithrin perthynas dda gyda mam y plentyn. Ar ôl cydnabod y byddai Megan yn elwa ar gefnogaeth barhaus wrth iddi ddechrau ymgysylltu ag asiantaethau partner, cytunwyd ar dri mis ychwanegol o gefnogaeth 'atal' wirfoddol a derbyniwyd hynny.<br>Byddai Megan yn elwa ar gefnogaeth barhaus wrth iddi ddechrau ymgysylltu ag asiantaethau partner. Cytunwyd ar dri mis ychwanegol o gefnogaeth 'atal' wirfoddol a derbyniwyd hynny. |

**A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?**

Mewn pedwar o'r pum achos, roedd yr arolygwyr o'r farn bod y gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, a bod cyfraniad yr asiantaethau eraill yn cael ei gydlynu'n dda. Roedd enghreifftiau o ymyriadau cadarnhaol yn cynnwys atgyfeiriadau i wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac ymarferion ar gyfer rheoli gwrthdaro er mwyn atal ymddygiad peryglus yn y dyfodol. Yn yr un achos lle barnwyd nad oedd yn bodloni'r cwestiwn allweddol hwn, roedd hyn oherwydd methiant i gynnwys CAMHS ac i fynd i'r afael â thrawma sylfaenol y plentyn.

**A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?**

Ym mhob achos, darparwyd digon o wasanaethau i reoli a lleihau i'r eithaf y risg o niwed i eraill, a lle'r oedd dioddefwyr gwirioneddol neu bosibl rhoddwyd digon o sylw i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu, fel yn yr enghraifft hon:

| Enghraifft o ymarfer da: |
| --- |
| Pan soniodd John ei fod yn gallu cael gafael ar wn yng nghartref ei gefnder (lle mae'n mynd yn aml), cwblhawyd atgyfeiriad aml-asiantaeth i sicrhau bod cefnder ifanc John a'i deulu yn cael eu diogelu. Pan adroddodd mam John ei fod yn mynd yn fwyfwy ymosodol tuag ati a bod pryderon ynghylch mynediad posibl at gyllyll, cwblhaodd y rheolwr achos atgyfeiriad yn ôl i Dîm o Amgylch y Teulu y gwasanaethau plant am gymorth i gadw'r fam yn ddiogel. Mae adolygiad hefyd o'r cynllun ymyrryd i fynd i'r afael â phryderon sy'n gysylltiedig ag arfau ac i gadw mam a phobl eraill yn ddiogel. |

| 3.4. Polisi a darpariaeth ar gyfer delio ag achosion y tu allan i'r llys | |
| --- | --- |
| Mae gwasanaeth datrysiadau y tu allan i'r llys o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy. | Da |

Wrth wneud penderfyniad am bolisi a darpariaeth datrysiad y tu allan i'r llys, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes polisi ar waith ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r llys sy'n hyrwyddo dargyfeirio priodol ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?**

Cafodd canllawiau ymarfer lleol newydd ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys eu paratoi ar ôl ymgynghori a chawsant eu cymeradwyo gan fwrdd partneriaeth y GCI ym mis Medi 2021 cyn cael eu rhannu â'r staff. Mae'n nodi y dylid gosod datrysiadau ar y lefel briodol isaf, ac mae canllawiau ar ddefnyddio datrysiadau cymunedol ar gyfer troseddau cyntaf o fod â chanabis yn ei feddiant a bod yn feddw ac afreolus. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n nodi sut y rhoddir sylw i anghenion o ran amrywiaeth.

Mae lle sylweddol i ddisgresiwn wrth benderfynu ar ddatrysiadau, gan gynnwys ar gyfer troseddau yn ymwneud â bod â chyllell yn ei feddiant, a gellir cyfeirio achosion yn ôl at yr heddlu os credir na fyddai datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol. O'r achosion a ddaeth gerbron y panel rhwng mis Ebrill a mis Medi 2021 lle cytunwyd ar ddatrysiad y tu allan i'r llys, cafodd 83 y cant ddatrysiad cymunedol. Cyfeiriwyd rhai achosion yn ôl at yr heddlu, ac arweiniodd hynny at benderfyniad i beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

Mae pob plentyn yn destun rhyw fath o asesiad AssetPlus cyn dod i benderfyniad, ac os asesir bod y plentyn yn peri risg uchel o achosi niwed difrifol i bobl eraill, neu os oes llawer o bryderon ynghylch diogelwch a lles, bydd cyfarfod rheoli risg yn cael ei gynnal ar ôl cytuno ar y penderfyniad.

**A yw darpariaeth ar gyfer datrysiad y tu allan i'r llys yn hyrwyddo dargyfeirio ac yn cefnogi ymataliad cynaliadwy?**

Yn y pum achos a arolygwyd, roedd panel y ganolfan datrysiadau y tu allan i'r llys yn cynnwys rheolwr tîm y GCI (cadeirydd y panel), gwirfoddolwr cymunedol a'r swyddog heddlu ar secondiad, er nad oedd swyddog yr heddlu yn bresennol ar un achlysur. Ers hynny, ehangwyd aelodaeth y panel i gynnwys y cydlynydd dulliau adferol a'r gweithiwr dioddefwyr, a'r nyrs CAMHS. Nid yw'r staff gwasanaethau plant yn rhan ffurfiol o'r panel, ac mae hynny'n fwlch sylweddol; ac nid oeddent yn bresennol yn y ddau achos a arolygwyd a oedd yn ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal gyda'r awdurdod lleol yn rhiant corfforaethol. Mae plant a'u rhieni neu ofalwyr yn cael eu gweld (gartref fel arfer) cyn y

panel fel rhan o'r asesiad, a gallant ymuno â chyfarfod y panel, sy'n cael ei gynnal ar-lein ar hyn o bryd.

Mae'r cydlynydd dioddefwyr a dulliau adferol yn ymgynghori â dioddefwyr cyn y panel ac yn cynrychioli eu safbwyntiau a chyfleoedd am ymyriadau cyfiawnder adferol. Mae ystod lawn o ymyriadau ar gael i blant sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys. Y gweithiwr CAMHS yw eiriolwr trawma'r GCI ac mae'n defnyddio ei harbenigedd i helpu'r panel i wneud penderfyniadau a chytuno ar gynlluniau. Mae proses uwchgyfeirio glir i reolwr y tîm a rhingyll yr heddlu os na all y panel a phenderfynwr yr heddlu ddod i gytundeb, ond ni ddefnyddiwyd y broses hon yn ddiweddar.

**A yw'r polisi a'r ddarpariaeth ar gyfer gwneud datrysiadau y tu allan i'r llys yn cael eu hasesu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynnal cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth?**

Cynhyrchir adroddiad ddwywaith y flwyddyn am y ganolfan ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn dangos cynnydd o ran lleihau nifer y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf a chanran y plant sy'n destun penderfyniad y tu allan i'r llys sy'n mynd ymlaen i aildroseddu o fewn blwyddyn, sef 6.8 y cant ar gyfer 2020/2021. Mae cyfran y rhai sy'n ymuno am y tro cyntaf â'r broses cyfiawnder troseddol ffurfiol ym Mhowys wedi bod yn is na Chymru a Lloegr yn gyson dros y tair blynedd diwethaf, ac mae hynny'n awgrymu bod dargyfeirio tuag at ddatrysiadau cymunedol ac i ffwrdd o ganlyniadau ffurfiol wedi bod yn effeithiol.

Roedd yr adolygiad diweddar o'r ganolfan wedi arwain at amrywiaeth ehangach o bartneriaid yn mynychu'r panel, ac mae'r rhain yn gallu dod â safbwyntiau eraill i'r penderfyniadau a'r cynlluniau arfaethedig ar gyfer ymyriadau. Arweiniodd hefyd at broses asesu a gwneud penderfyniadau sy'n gyflymach ac yn symlach a disgwyliad y bydd y panel yn adolygu achosion os cânt eu cau.

Fodd bynnag, ni chafodd materion amrywiaeth ac anghymesuredd eu gwerthuso, gan gynnwys effaith y ganolfan ar ddargyfeirio plant ag anghenion arbennig neu'r rhai sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol.

# 4. Ailsefydlu

## 4.1. Polisi a darpariaeth ailsefydlu

Mae gwasanaeth ailsefydlu o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant sy'n gadael caethiwed.

Rydym wedi edrych ar ansawdd y polisi a'r ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer gwaith ailsefydlu, gan ddefnyddio tystiolaeth o ddogfennau, cyfarfodydd a chyfweliadau. Gan nad oedd unrhyw achosion ailsefydlu yn ystod y cyfnod dan sylw ar gyfer yr arolygiad, ni roddwyd sgôr i'r safon hon. Roedd ein prif ganfyddiadau fel a ganlyn.

**Cryfderau:**

- Roedd polisi ailsefydlu newydd ar waith a oedd yn cynnwys panel ailsefydlu o asiantaethau partner i wneud cynlluniau ar y cyd ar gyfer rhyddhau, ynghyd â phlant a'u rhieni neu ofalwyr.

**Meysydd i'w gwella:**

- Dylid cynnwys gwasanaethau plant fel aelod craidd o'r panel ailsefydlu, er mwyn sicrhau bod anghenion llety'r plant yn cael eu bodloni.

Gwnaethom gasglu tystiolaeth ar gyfer y safon hon o ddogfennau a chyfarfodydd. Wrth wneud penderfyniad am bolisi a darpariaeth ailsefydlu, rydym yn ystyried yr atebion i'r tri chwestiwn canlynol:

**A oes polisi ailsefydlu ar waith sy'n hyrwyddo gwasanaeth ailsefydlu personol, adeiladol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?**

Cynhyrchwyd polisi ailsefydlu newydd ym mis Awst 2021 sy'n cyfeirio at y gofynion diweddaraf a'r canllawiau ar gyfer rheoli achosion ailsefydlu. Mae'n cynnwys cynnull panel ailsefydlu ar gyfer pob achos remand a charcharu er mwyn cynllunio ar gyfer rhyddhau; mae'r aelodaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r bobl ac asiantaethau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r llwybrau ailsefydlu.

Nid yw'r gwasanaethau plant yn aelod craidd, ac mae hynny'n fwlch, o ystyried eu rôl o ran mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â llety. Mae rolau'r swyddog heddlu ar secondiad, y cydlynydd adferol a'r gweithiwr dioddefwyr, a phaneli MAPPA wedi'u nodi er mwyn sicrhau bod anghenion y dioddefwyr a diogelwch y cyhoedd yn cael eu hystyried pan gynigir amodau trwyddedau.

Er bod y polisi'n nodi sut y dylid ymdrin ag anghenion plant gydag anghenion dysgu ychwanegol yn y ddalfa ac ar ôl eu rhyddhau, ni chyfeirir at sut y dylid ystyried ffactorau amrywiaeth eraill yn ymarferol.

### A yw'r ddarpariaeth ailsefydlu yn hyrwyddo gwasanaeth ailsefydlu personol, adeiladol ac o ansawdd uchel ar gyfer pob plentyn?

Yr achos ailsefydlu diwethaf oedd gorchymyn cadw a hyfforddi a wnaed dros flwyddyn yn ôl. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, nid yw'r GCI erioed wedi cael mwy nag un achos carcharu ar y tro; mae lefel y dedfrydau o garchar wedi aros yn gyson yn is na'r lefel yng Nghymru a Lloegr y pen yn y boblogaeth rhwng 10–17 oed.

Ar wahân i'r rheolwr tîm interim, nad yw wedi'i leoli ym Mhowys, dim ond un aelod o'r panel ailsefydlu wnaethon ni gwrdd â nhw sydd â phrofiad o weithio gydag achos ailsefydlu. Disgrifiodd y nyrs CAMHS gyswllt da â'r gwasanaethau iechyd meddwl mewn sefydliad troseddwyr ifanc yn ystod cyfnod Covid-19 a oedd yn cefnogi'r broses o ailsefydlu'r plentyn yn effeithiol ar ôl ei ryddhau

Roedd hyfforddiant ynghylch ailsefydlu ar gyfer aelodau'r tîm wedi'i gynllunio ar gyfer wythnos yr arolygiad ond cafodd ei ohirio yn ddiweddarach. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i'r panel ddod at ei gilydd i gynllunio senarios ailsefydlu, er mwyn sicrhau bod y staff yn barod i reoli achos ailsefydlu pan fydd un yn digwydd, yn unol â'r polisi newydd.

### A yw'r polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu yn cael eu hasesu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a chynnal cysondeb â'r sylfaen dystiolaeth?

Mae'r polisi ailsefydlu newydd yn seiliedig ar ddogfennau canllawiau cenedlaethol yn hytrach na gwerthusiad o ddata a darpariaeth leol ym Mhowys. Ni fu llawer o ymgynghori â staff ac asiantaethau partner hyd yma. Disgwylir i'r polisi gael ei adolygu yn 2024, ond byddai'n ddefnyddiol i hynny gael ei wneud yng ngoleuni'r arolygiad hwn a'r profiadau dilynol o reoli achosion.

# Atodiad 1: Methodoleg

### Safonau Arolygiaeth Prawf EM

Mae’r safonau rydyn ni’n arolygu'r gwasanaethau troseddau ieuenctid yn eu herbyn yn seiliedig ar fodelau a fframweithiau sefydledig, sydd wedi’u seilio ar dystiolaeth, dysg a phrofiad. Nod y safonau hyn yw sbarduno gwelliannau yn ansawdd y gwaith gyda phlant sydd wedi troseddu.[21]

Mae’r fethodoleg arolygu wedi’i chrynhoi isod, ac wedi’i chysylltu â’r tri pharth yn ein fframwaith safonau. Gwnaethom ganolbwyntio ar gael tystiolaeth yn erbyn y safonau, y cwestiynau a’r awgrymiadau allweddol yn ein fframwaith arolygu.

### Parth un: darpariaeth sefydliadol

Cyflwynodd y gwasanaeth troseddau ieuenctid dystiolaeth ymlaen llaw a rhoddodd y prif weithredwr gyflwyniad ar y meysydd canlynol:

- Sut mae trefniadau ar gyfer darpariaeth sefydliadol yn y maes hwn yn gwneud yn siŵr bod gwaith eich gwasanaeth troseddau ieuenctid mor effeithiol ag y gall fod, a bod cyfleoedd mewn bywyd y plant sydd wedi troseddu yn cael eu gwella?
- Beth yw eich blaenoriaethau ar gyfer gwella’r trefniadau hyn ymhellach?

Yn ystod y prif gyfnod gwaith maes, cynhaliwyd chwe chyfweliad gyda rheolwyr achos, gan ofyn iddynt am eu profiadau o ran hyfforddiant, datblygiad, goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth gan reolwyr. Cynhaliwyd amrywiol gyfarfodydd, ac roedd y rhain wedi ein galluogi i driongli tystiolaeth a gwybodaeth. Cynhaliwyd cyfanswm o 13 cyfarfod, a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda rheolwyr, sefydliadau partner a staff. Cafodd y dystiolaeth a gasglwyd o dan y parth hwn ei barnu yn erbyn nodweddion y sgoriau roeddem wedi’u cyhoeddi.[22]

### Parth dau: datrysiadau yn y llys

Gwnaethom gwblhau asesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Roedd deugain y cant o’r achosion a ddewiswyd yn ymwneud â phlant a oedd wedi derbyn datrysiadau yn y llys rhwng chwech a naw mis yn gynharach, a oedd yn ein galluogi i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu. Lle bo angen, cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl eraill a oedd yn ymwneud yn sylweddol â’r achos hefyd.

Gwnaethom archwilio dau ddatrysiad yn y llys. Pennwyd maint y sampl i sicrhau lefel hyder o 80 y cant (gyda goddefiant gwall o bump), a gwnaethom sicrhau bod y cymarebau mewn perthynas â rhyw, dedfryd neu fath o ddatrysiad, risg o niwed difrifol, a risg i ddiogelwch a lles yn cyfateb i’r rhai yn y boblogaeth gymwys.

### Parth tri: datrysiadau y tu allan i’r llys

Gwnaethom gwblhau asesiadau achos dros gyfnod o wythnos, gan archwilio ffeiliau achos a chyfweld rheolwyr achos. Roedd chwe deg y cant o’r achosion a ddewiswyd yn ymwneud â phlant a oedd wedi derbyn datrysiadau y tu allan i’r llys dri i bum mis yn gynharach. Roedd hyn yn ein galluogi i archwilio gwaith mewn perthynas ag asesu,

---

[21] Mae safonau Arolygiaeth EM ar gael yma: [https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/](https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-work/our-standards-and-ratings/)

cynllunio, a gweithredu a darparu. Lle bo angen, cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl eraill a oedd yn ymwneud yn sylweddol â'r achos hefyd.

Gwnaethom archwilio pum datrysiad y tu allan i'r llys. Pennwyd maint y sampl ar sail cyfran y datrysiadau y tu allan i'r llys yn y GCI.

**Ailsefydlu**

Buom yn siarad â staff a phartneriaid, ac yn adolygu dogfennau i asesu digonolrwydd y polisi a'r ddarpariaeth ailsefydlu.

# Atodiad 2: Data arolygu

Yn yr arolygiad hwn, gwnaethom gynnal archwiliad manwl o sampl o ddau ddatrysiad yn y llys a phum datrysiad y tu allan i'r llys. Ym mhob un o'r achosion hynny, rydym yn arolygu yn erbyn safonau mewn perthynas ag asesu, cynllunio, a gweithredu a darparu. Ar gyfer datrysiadau yn y llys, rydym hefyd yn edrych ar adolygu. Ar gyfer pob safon, mae'r arolygwyr yn ateb nifer o gwestiynau allweddol am wahanol agweddau ar ansawdd, gan gynnwys a oedd dadansoddiad digonol o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â throseddu; i ba raddau yr oedd y troseddwyr ifanc yn ymwneud ag asesu a chynllunio; ac a wnaed digon i asesu lefel y risg o niwed, ac i reoli'r risg honno.

Er mwyn cael sgôr 'Rhagorol' ar gyfer yr adrannau ar ddatrysiadau yn y llys neu ddatrysiadau y tu allan i'r llys, mae'n rhaid i 80 y cant neu fwy o'r achosion a ddadansoddwn gael eu hasesu fel rhai digonol. Os bernir bod rhwng 65 y cant a 79 y cant yn ddigonol, yna caiff sgôr 'Da' ac os bernir bod rhwng 50 y cant a 64 y cant yn ddigonol, yna rhoddir sgôr 'Angen gwella'. Yn olaf, os yw llai na 50 y cant yn ddigonol, yna caiff sgôr 'Annigonol'. Nid yw achosion ailsefydlu yn cael eu sgorio ar wahân; mae'r data at ddibenion enghreifftiol yn unig.

Mae'r sgôr ar gyfer pob safon wedi'i halinio â'r band ar lefel y cwestiwn allweddol lle barnwyd bod y gyfran isaf o achosion yn ddigonol, gan ein bod yn credu bod pob un o'r cwestiynau allweddol yn rhan annatod o'r safon. Felly, os ydym yn rhoi sgôr 'Da' i dri chwestiwn allweddol a sgôr 'Annigonol' i un, y sgôr gyffredinol ar gyfer y safon honno yw 'Annigonol'.

| **Y band isaf**<br>(cyfran yr achosion y bernir eu bod yn ddigonol ar lefel y cwestiynau allweddol) | **Sgôr (safonol)** |
|---|---|
| Lleiafrif: <50% | Annigonol |
| Dim digon: 50-64% | Angen gwella |
| Mwyafrif rhesymol: 65-79% | Da |
| Mwyafrif helaeth: 80%+ | Rhagorol ☆ |

Mae rheolau sgorio ychwanegol yn cael eu defnyddio i greu sgôr gyffredinol y timau troseddau ieuenctid. Mae'r 12 safon yn cael eu sgorio ar raddfa o 0 i 3, lle mae 'Annigonol' = 0; 'Angen gwella' = 1; 'Da' = 2; a 'Rhagorol' = 3. Mae adio'r sgoriau hyn yn creu cyfanswm sgôr sydd rhwng 0 a 36, sy'n cael ei bandio i greu sgôr gyffredinol, fel a ganlyn:

- 0–6 = Annigonol
- 7–18 = Angen gwella
- 19–30 = Da
- 31–36 = Rhagorol.

Mae safonau parth un, y safon ansoddol ym mharth tri (safon 3.4) a'r safon ailsefydlu (safon 4.1) yn cael eu barnu gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol yn bennaf.

Mae'r safon ailsefydlu yn cael ei sgorio ar wahân, ac nid yw'n dylanwadu ar sgôr gyffredinol y timau troseddau ieuenctid. Rydym yn defnyddio barn gyfyngus, lle nad yw unrhyw dîm troseddau ieuenctid sy'n cael sgôr 'Annigonol' ar gyfer y safon ailsefydlu yn gallu cael sgôr 'Rhagorol' gyffredinol, ni waeth sut mae'n cael ei sgorio yn erbyn y safonau craidd. Lle nad oes achosion ailsefydlu perthnasol, nid ydym yn rhoi sgôr i waith ailsefydlu.

**Data o achosion a arolygwyd:**[23]

| 2.1. Asesu (datrysiadau yn y llys) | |
|---|---|
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?** | **% ydy** |
| a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, gan gynnwys agwedd y plentyn tuag at droseddu a'r hyn sy'n ei gymell? | 100% |
| b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | 50% |
| c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | 100% |
| d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill? | 100% |
| e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn? | 100% |
| f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r prif rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn? | 50% |
| g) A roddir digon o sylw i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, a'i debygolrwydd o ymwneud â datrysiad y llys? | 100% |
| h) A yw'r asesiad yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol? | 50% |
| i) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 100% |
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?** | **% ydy** |
| a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn? | 0% |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | 50% |
| c) A yw'r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 0% |
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?** | **% ydy** |

[23] Nid yw rhai o'r cwestiynau'n berthnasol ym mhob achos.

| | |
|---|---|
| a) A yw’r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi’n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sy’n wynebu risg a natur y risg honno? | 50% |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys ymddygiad ac euogfarnau blaenorol, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo’n briodol? | 0% |
| c) A yw’r asesiad yn dadansoddi rheolaethau ac ymyriadau i reoli a lleihau i’r eithaf y risg o niwed a achosir gan y plentyn? | 100% |

| **2.2. Cynllunio (datrysiadau yn y llys)** | |
|---|---|
| **A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwaith cynllunio’n nodi’r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a’r angen am ddilyniant? | 50% |
| b) A yw’r gwaith cynllunio yn mynd i’r afael â materion sy’n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | 100% |
| c) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | 50% |
| d) A yw’r gwaith cynllunio’n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu’r rhain yn ôl yr angen? | 50% |
| e) A yw’r gwaith cynllunio’n rhoi digon o sylw i lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu’r rhain yn ôl yr angen? | 100% |
| f) A yw’r gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau’r dioddefwyr? | 50% |
| g) A yw’r plentyn a’i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y broses gynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 50% |
| **A yw’r gwaith cynllunio’n canolbwyntio’n ddigonol ar gadw’r plentyn yn ddiogel?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwaith cynllunio’n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, ac yn mynd i’r afael yn ddigonol â'r risgiau? | 100% |
| b) A yw’r gwaith cynllunio’n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny’n briodol, ac a oes digon o gysondeb â chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal) sy’n ymwneud â’r plentyn? | 0% |

| | |
|---|---|
| c) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 100% |
| d) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi? | 0% |
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, ac yn rhoi sylw digonol i ffactorau risg o niwed? | 50% |
| b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol? | 0% |
| c) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl? | 100% |
| d) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r rheolaethau a'r ymyriadau angenrheidiol i hyrwyddo diogelwch pobl eraill? | 50% |
| e) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi trefniadau wrth gefn angenrheidiol ac effeithiol i reoli'r risgiau hynny sydd wedi'u nodi? | 0% |

| **2.3. Gweithredu a darparu (datrysiadau yn y llys)** | |
|---|---|
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?** | **% ydy** |
| a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael? | 100% |
| b) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn? | 100% |
| c) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill? | 50% |
| d) A yw darparu gwasanaethau'n adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol? | 100% |
| e) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr? | 100% |
| f) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau ar ôl goruchwyliaeth? | 50% |
| g) A roddir digon o sylw i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y timau troseddau ieuenctid? | 100% |

| | |
|---|---|
| h) A yw camau gorfodi'n cael eu cymryd pan fo hynny'n briodol? | 0% |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 50% |
| b) A yw'r gwaith o gynnwys asiantaethau eraill i gadw'r plentyn yn ddiogel yn cael ei gyd-drefnu'n dda? | 0% |
| **A yw gweithredu a darparu gwasanaethau yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau'r risg o niwed? | 100% |
| b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl? | 100% |
| c) A yw cyfranogiad asiantaethau eraill o ran rheoli'r risg o niwed wedi'i gyd-drefnu'n ddigonol? | 0% |

| **2. 4. Adolygu (datrysiadau yn y llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | **% ydy** |
| a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymataliad? | 0% |
| b) A yw adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar adeiladu ar gryfderau'r plentyn ac yn gwella ffactorau amddiffynnol? | 50% |
| c) A yw'r gwaith adolygu yn cynnwys dadansoddiad o ffactorau amrywiaeth, ac yn ymateb iddynt? | 0% |
| c) A yw adolygu'n ystyried yr amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | 50% |
| e) A yw'r gwaith adolygu yn ystyried lefelau cymhelliant ac ymgysylltu ac unrhyw rwystrau perthnasol? | 0% |
| f) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y gwaith o adolygu ei gynnydd a'i ymgysylltu, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 100% |
| g) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i gefnogi ymataliad? | 0% |
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?** | **% ydy** |

| | |
|---|---|
| a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles? | 0% |
| b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 0% |
| c) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r gwaith i hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 0% |
| **A yw'r gwaith adolygu'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | **% ydy** |
| a) A yw adolygu yn canfod ac yn ymateb i newidiadau mewn ffactorau sy'n gysylltiedig â'r risg o niwed? | 0% |
| b) A yw'r gwaith adolygu'n cael ei oleuo gan y mewnbwn angenrheidiol gan asiantaethau eraill sy'n ymwneud â rheoli'r risg o niwed? | 50% |
| c) A yw adolygu yn arwain at addasiadau angenrheidiol yn y cynllun parhaus o'r holl waith i reoli ac i leihau'r risg o niwed? | 50% |

| **3.1. Asesu (datrysiadau y tu allan i'r llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gefnogi ymataliad y plentyn?** | **% ydy** |
| a) A oes dadansoddiad digonol o ymddygiad troseddol, gan gynnwys cydnabyddiaeth y plentyn am ei gyfrifoldeb dros droseddu, a'i agwedd tuag at droseddu a'r hyn sy'n ei gymell? | 60% |
| b) A yw'r asesiad yn dadansoddi materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | 80% |
| c) A yw'r asesiad yn ystyried amgylchiadau personol, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | 80% |
| d) A yw'r asesiad yn defnyddio gwybodaeth a ddelir gan asiantaethau eraill? | 40% |
| e) A yw'r asesiad yn canolbwyntio ar gryfderau a ffactorau diogelu'r plentyn? | 100% |
| f) A yw'r asesiad yn dadansoddi'r prif rwystrau strwythurol sy'n wynebu'r plentyn? | 60% |
| g) A roddir sylw digonol i ddeall lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid? | 80% |
| h) A yw'r asesiad yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr, a chyfleoedd ar gyfer cyfiawnder adferol? | 60% |
| i) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn ei asesiad, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 60% |

| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw'r plentyn yn ddiogel?** | **% ydy** |
|---|---|
| a) A yw'r asesiad yn nodi'n glir ac yn dadansoddi unrhyw risgiau i ddiogelwch a lles y plentyn? | 60% |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys asesiadau eraill, ac yn cynnwys asiantaethau eraill lle bo'n briodol? | 20% |
| **A yw'r asesiad yn dadansoddi'n ddigonol sut i gadw pobl eraill yn ddiogel?** | **% ydy** |
| a) A yw'r asesiad yn nodi ac yn dadansoddi'n glir unrhyw risg o niwed i eraill gan y plentyn, gan gynnwys nodi pwy sy'n wynebu risg a natur y risg honno? | 40% |
| b) A yw'r asesiad yn gwneud defnydd digonol o ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw asesiadau eraill sydd wedi'u cwblhau, a thystiolaeth arall o ymddygiad y plentyn? | 60% |

| **3.2. Cynllunio (datrysiadau y tu allan i'r llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio ar gefnogi ymataliad y plentyn?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n nodi'r gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i'r amserlenni sydd ar gael a'r angen am ddilyniant? | 40% |
| b) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag amrywiaeth yn ddigonol? | 80% |
| c) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i amgylchiadau personol y plentyn, gan gynnwys cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn? | 60% |
| d) A yw'r gwaith cynllunio'n ystyried cryfderau a ffactorau amddiffynnol y plentyn yn ddigonol, ac yn ceisio atgyfnerthu neu ddatblygu'r rhain yn ôl yr angen? | 60% |
| e) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o sylw i lefelau aeddfedrwydd, gallu a chymhelliant y plentyn i newid, ac yn ceisio datblygu'r rhain yn ôl yr angen? | 60% |
| f) A yw'r gwaith cynllunio'n rhoi digon o ystyriaeth i gyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd ar ôl cwblhau'r gwaith datrys y tu allan i'r llys? | 80% |
| g) A yw'r gwaith cynllunio yn rhoi sylw digonol i anghenion a dymuniadau'r dioddefwyr? | 60% |

| | |
|---|---|
| h) A yw'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr yn cymryd rhan ystyrlon yn y broses gynllunio, ac a yw eu barn yn cael ei hystyried? | 60% |
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw'r plentyn yn ddiogel?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn, ac yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau? | 60% |
| b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol, ac a oes digon o gysondeb â chynlluniau eraill (e.e. cynlluniau amddiffyn plant neu gynlluniau gofal) sy'n ymwneud â'r plentyn? | 60% |
| c) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi'u nodi? | 60% |
| **A yw'r gwaith cynllunio'n canolbwyntio'n ddigonol ar gadw pobl eraill yn ddiogel?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwaith cynllunio'n hyrwyddo diogelwch pobl eraill, ac yn rhoi sylw digonol i ffactorau risg o niwed? | 20% |
| b) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol? | 20% |
| c) A yw'r gwaith cynllunio yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau a phryderon penodol sy'n gysylltiedig â dioddefwyr gwirioneddol a phosibl? | 20% |
| d) A yw'r gwaith cynllunio'n cynnwys trefniadau wrth gefn angenrheidiol ar gyfer y risgiau hynny sydd wedi'u nodi? | 20% |

| **3.3. Gweithredu a darparu (datrysiadau y tu allan i'r llys)** | |
|---|---|
| **A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi ymataliad y plentyn yn effeithiol?** | **% ydy** |
| a) Ai'r gwasanaethau a ddarperir yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gefnogi ymataliad, gan roi sylw digonol i ddilyniant a'r amserlenni sydd ar gael? | 60% |
| b) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn rhoi cyfrif am faterion amrywiaeth y plentyn? | 100% |
| c) A yw'r gwasanaeth a ddarperir yn adlewyrchu cyd-destun teuluol a chymdeithasol ehangach y plentyn, gan gynnwys rhieni neu ofalwyr, neu bobl arwyddocaol eraill? | 100% |
| d) A roddir digon o ffocws ar ddatblygu a chynnal perthynas waith effeithiol â'r plentyn a'i rieni neu ofalwyr? | 80% |
| e) A roddir digon o sylw i annog a galluogi'r plentyn i gydymffurfio â gwaith y timau troseddau ieuenctid? | 100% |

| | |
|---|---|
| f) A yw’r gwasanaeth a ddarperir yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer integreiddio cymunedol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau prif ffrwd? | 80% |
| **A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch y plentyn yn effeithiol?** | **% ydy** |
| a) A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn hyrwyddo diogelwch a lles y plentyn? | 80% |
| b) A yw’r gwaith o gynnwys asiantaethau eraill i gadw’r plentyn yn ddiogel yn cael ei ddefnyddio a’i gyd-drefnu’n dda? | 80% |
| **A yw'r gwasanaethau a ddarperir yn cefnogi diogelwch pobl eraill yn effeithiol?** | **% ydy** |
| a) A yw’r gwasanaethau a ddarperir yn ddigon i reoli a lleihau’r risg o niwed? | 80% |
| b) A roddir digon o sylw i amddiffyn dioddefwyr gwirioneddol a dioddefwyr posibl? | 100% |